



Barnwriaeth  
Cymru a Lloegr



# Adroddiad yr Arglwyddes Brif Ustus 2024

Annibynnol, Diduedd, Uniondeb





**Barnwriaeth  
Cymru a Lloegr**

# **Adroddiad yr Arglwyddes Brif Ustus 2024**

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 5(1) Deddf  
Diwygio Cyfansoddiadol 2005



© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.judiciary.co.uk](http://www.judiciary.co.uk)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn [website.enquiries@judiciary.uk](mailto:website.enquiries@judiciary.uk)

ISBN 978-1-5286-5260-5

E03231647

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolydd Swyddfa Llyfrfa Ei Fawrhydi

Cyhoeddwyd gan:  
Y Swyddfa Farnwrol  
11th Floor Thomas More Building,  
Royal Courts of Justice,  
Strand,  
Llundain WC2A 2LL  
[www.judiciary.uk](http://www.judiciary.uk)

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad gan yr Arglwyddes Brif Ustus</b>	<b>2</b>
<b>Gwaith barnwyr ac ynadon</b>	<b>6</b>
Sifil	7
Troseddol	14
Teulu	21
<b>Y Farnwriaeth Fodern</b>	<b>24</b>
Amrywiaeth a chynhwysiant	24
Cyfathrebu barnwrol	28
Arweinyddiaeth	29
Recriwtio a phenodi	30
Hyfforddiant	32
Lles Barnwrol	33
<b>Ymgysylltu allanol a rhyngwladol</b>	<b>36</b>
Cyfathrebu Allanol	37
Y Proffesiwn Cyfreithiol	38
Ymgysylltu ag ysgolion	39
Tryloywder a chyfiawnder agored	39
Gweithio gyda'r Llywodraeth	40
Rhyngwladol	42
Cymru	44
<b>Gweithgarwch arall</b>	<b>46</b>
Gweithgarwch barnwrol	47
Gweithgarwch ategol	48
Geirfa	51

# Cyflwyniad gan yr Arglwyddes Brif Ustus

Dyma fy adroddiad blynyddol cyntaf ers dod yn Arglwyddes Brif Ustus. Mae'n gyfle i'w groesawu i gofnodi a myfyrio ar ddigwyddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf (hyd at fis Medi 2024). Drwy gydol y cyfnod hwn, mae'r ymrwymiad cadarn a diysgog i weinyddu cyfiawnder gan ein barnwyr (llysoedd a thribiwnlysoedd), ynadon a chrwneriaid wedi creu argraff arnaf. Mae wedi bod yn gyfnod o newid, gan gynnwys llywodraeth newydd, ac ymhlith pethau eraill, cael y Mwslim cyntaf a'r cyn-aelod cyntaf o'r Bar cyflogedig i fod yn Arglwydd Ganghellor, sydd wedi tyngu llw i ddal y swydd wych hon. Edrychaf ymlaen at weithio ochr yn ochr â hi, wrth i ni ymdrechu i gyflawni ein hymrwymiad cyffredin i reolaeth y gyfraith.



Mae'r flwyddyn wedi dod â chyfleoedd a heriau disgwyliedig ac annisgwyl, y mae'r farnwriaeth wedi gweithio drwyddynt neu'n parhau i ymdrin â nhw: datblygiadau mewn technoleg, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, cynnydd mewn tryloywder, deddfwriaeth newydd neu ddeddfwriaeth sy'n newid, cau llysoedd oherwydd materion yn ymwneud ag ystadau a phryderon ynghylch diogelwch, i enwi ond rhai. Rydym wedi llwyddo i gyflawni gymaint yn bennaf oherwydd cydnerthedd a gallu deiliaid swyddi barnwrol, a'n nod cyffredin o ran ymrwymiad i symud ymlaen.

Ers dechrau yn y swydd, rwyf wedi ymweld â phob cylchdaith ledled Cymru a Lloegr ac wedi ymgysylltu â chynifer o farnwyr, ynadon a thribiwnlysoedd â phosibl, boed hynny wyneb yn wyneb neu drwy fy sesiynau fforwm agored ar-lein. Mae'r uchafbwyntiau wedi cynnwys gweld Llysoedd Goruchwylio Dwys, Llysoedd Braenaru, Llysoedd Datrys Problemau Menywod, Llys Sirol Birkenhead ar ei newydd wedd, y Llysoedd Busnes ac





Eiddo newydd yn Leeds, digwyddiad Amgueddfa Cyfiawnder Cenedlaethol, a Menter Troseddau Cylyll Ieuencid. Mae Cymru wedi bod yn faes ffocws pwysig yn naturiol, gydag ymweliadau a/ neu eisteddiadau yng Nghaerdydd, Abertawe a Chasnewydd, ochr yn ochr â thyngu llw Barnwr Cylchdaith Cymru yn rhannol yn Gymraeg. Dyma'r tro cyntaf i'r adroddiad blynyddol fod ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

Mae'r holl ymweliadau hyn wedi fy ngalluogi i weld â'm llygaid fy hun y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud o ddydd i ddydd, ond hefyd yr heriau dyddiol sy'n deillio o dan-adnoddau hanesyddol, gan gynnwys mewn meysydd fel diogelwch ac ystadau.

Mae moderneiddio a digideiddio wedi parhau i ddatblygu dros y cyfnod hwn. Mae'r Rhanbarth Rhithwir, a thrawsleoli barnwyr Tribiwnlys, wedi galluogi

gwrandawiaidau cyflymach ar hawliadau bychain a hawliadau trac cyflym o Lundain a De-ddwyrain Lloegr. O ran achosion Sifil, rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn y Gwasanaeth Hawliadau Arian Sifil Ar-lein sydd, ar gyfartaledd, wedi caniatáu i achosion gael gorchymyn cyfarwyddyd tua 20 wythnos yn gyflymach na'r rheini a gyhoeddwyd ar bapur. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella rhestru yn y Llysoedd Sirol ac mae Grŵp Gwella Llys y Goron yn parhau i ganolbwyntio ar hybu prydlondeb achosion yn Llys y Goron. Er enghraifft, mae achosion o dreisio a throseddau rhywiol difrifol sydd wedi bod yn system y llys ers dwy flynedd neu fwy, lle bo hynny'n bosibl, yn cael dyddiad penodol ar gyfer treial yn y gwrandawriad cyntaf. Er ei bod yn ddyddiau cynnar o hyd i'r fenter, mae arwyddion addawol y bydd yn llwyddiannus. Canolbwyntir yn awr ar sicrhau bod yr arfer hwn yn cael ei fabwysiadu'n genedlaethol.

Rwyf yn ddiolchgar i farnwyr yn Llys y Goron sydd wedi gweithio mor galed ac ar y cyd â phartneriaid cyfiawnder eraill i leihau'r ôl-groniad uchel o achosion. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae'r ôl-groniad wedi parhau i dyfu, wedi'i achosi'n rhannol gan gynnydd mewn cymysgedd o achosion cymhleth a derbyniadau. Yn benodol, hoffwn ddiolch i'r barnwyr hynny sy'n delio ag achosion sy'n deillio o'r anhrefn sifil diweddar, yn y Llysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron.

O ran achosion Teulu, rydym wedi ehangu'r Rhaglen Braenaru a dreialwyd yng Ngogledd Cymru a Dorset i gynnwys Birmingham a De-ddwyrain Cymru. Mae'r fenter hon wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol, gan sicrhau bod y teuluoedd sy'n ymwneud â'r achosion hyn yn cael canlyniad yn gyflymach nag o'r blaen.

Mae tryloywder y system gyfiawnder yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i mi, ac roeddwn yn falch iawn o sefydlu'r Bwrdd Tryloywder a Chyfiawnder Agored yn fy mlwyddyn gyntaf. Nod craidd y grŵp hwn yw gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn sy'n digwydd yn ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd. Mae hon yn elfen hirdymor a hanfodol o reolaeth y gyfraith. Edrychaf ymlaen at weld gwaith y Bwrdd yn datblygu yn ystod fy nghyfnod yn y swydd. Yn gysylltiedig, rwyf hefyd wedi cynyddu fy ymgysylltiad â seneddwyr ac wedi ehangu'r gronfa o Farnwyr Cyswllt Seneddol i helpu Aelodau Seneddol ddeall yn well waith y farnwriaeth, annibyniaeth farnwrol, a'r rôl bwysig y mae'n ei chwarae i'w hetholwyr. Cynhaliais fy Nghynhadledd gyntaf i'r Wasg ar gyfer newyddiadurwyr ddechrau 2024 ac

ymddangosais gerbron y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Ionawr 2024, pan gefais gyfle cyhoeddus i nodi fy mlaenoriaethau a'm hamcanion cynnar.

Dros y cyfnod hwn, rwyf wedi bod yn ymwybodol o ymroddiad ynadon sydd, fel gweithwyr proffesiynol di-dâl, yn gweinyddu cyfiawnder troseddol, teulu ac ieuenctid bob dydd ledled Cymru a Lloegr. Roedd yn bleser gallu tynnu sylw at eu hymdrechion a'u dathlu ochr yn ochr â'i Fawrhydi y Brenin Charles III a ymwelodd â'r Llysoedd Barn Brenhinol fis Rhagfyr 2023. Roeddwn hefyd yn falch o ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ac ymuno â sesiwn holi ac ateb gyda dau ynad benywaidd, ac fe es i Ddiwrnod Gwerthfawrogi Ynadon yn yr Old Bailey. Mae'n galonogol gwybod bod gennym bellach y nifer uchaf erioed o aelodau o'r cyhoedd sy'n gwneud cais i fod yn ynadon. Mae gwaith pwysig hyfforddi ynadon bellach wedi symud i'r Coleg Barnwrol, lle gellir defnyddio sgiliau ac arbenigedd y rhai sy'n hyfforddi ein barnwyr ar gyfer yr ynadaeth hefyd.

Yn ogystal â theithio ar hyd a lled ein hawdurdodaeth, rwyf wedi cynrychioli barnwriaeth Cymru a Lloegr ar sawl achlysur rhyngwladol, gan gynnwys Dulyn, Qatar, Strasbwrg a Stockholm. Bob tro, rwyf wedi cael fy atgoffa o'r parch byd-eang at onestrwydd, deallusrwydd a sgiliau ein barnwriaeth. Mae effeithiau cadarnhaol ein system gyfiawnder yn bellgyrhaeddol y tu hwnt i'n ffiniau, ac mae'r parch mawr tuag atom wedi bod yn amlwg, yn enwedig gan fy mod wedi croesawu Prif Ynadon ac uwch farnwriaeth ryngwladol yn y Llysoedd Barn Brenhinol.



Rydym hefyd wedi parhau i gefnogi mentrau hyfforddi mewn awdurdodaethau rhyngwladol, gan helpu i gynnal a hyrwyddo annibyniaeth farnwrol a rheolaeth y gyfraith.

Carwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb, gan gynnwys staff GLITEF, sydd wedi chwarae rhan yn y gwaith o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr dros y flwyddyn ddiwethaf, am eu cefnogaeth yn fy mlwyddyn gyntaf fel Arglwyddes Brif Ustus. Rhoddaf

deyrnged hefyd i'r rheini yn y Swyddfa Farnwrol sydd wedi rhoi cyngor a chymorth amhrisiadwy i mi. Wrth edrych i'r dyfodol, gwn y bydd y farnwriaeth yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu er mwyn cyflawni neu gynnal cynnydd, gwella effeithlonrwydd a phrydlondeb, adeiladu undod barnwrol, moderneiddio'r system gyfiawnder, a chynnal rheolaeth y gyfraith.

### **Y Gwir Anrhydeddus Farwnes Carr o Walton-on-the-Hill**





# Gwaith barnwyr ac ynadon





# Sifil

## Adran Sifil y Llys Apêl

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cyhoeddwyd pum penodiad newydd yn y Llys Apêl: Syr Peter Fraser, Syr Jeremy Baker, Syr David Holgate, Syr Stephen Cobb a Syr Anthony Zacaroli.

Cynyddodd llwyth gwaith y Llys Apêl (Adran Sifil) yn ystod y cyfnod adrodd. Gellir mesur hyn yn ystadegol o ran nifer y ceisiadau am ganiatâd i apelio a dderbyniwyd, nifer yr apeliadau y gwrandawyd arnynt, a nifer yr apeliadau sy'n aros i gael eu clywed. Fodd bynnag, mae'n anodd mesur y llwyth gwaith hwnnw mewn niferoedd yn unig am dri rheswm:

- Mae proffil apeliadau wedi newid yn sylweddol ers pandemig Covid. Erbyn hyn, mae mwy o apeliadau hir iawn (yn cymryd tri diwrnod neu fwy), mwy o apeliadau hir (yn cymryd dau ddiwrnod neu fwy), a llawer llai o apeliadau byrrach (yn cymryd llai nag un diwrnod llawn).
- Ers y newid rai blynyddoedd yn ôl o ganiatáu hawl awtomatig i adnewyddu ar lafar i ddelio â phob cais am ganiatâd i apelio ar bapur, mae'r ceisiadau hynny'n tueddu i gymryd llawer mwy o amser i farnwyr.
- Neilltuir mwy o amser nag o'r blaen i wrandawiadau prif apeliadau. Drwy ddiffiniad, mae pob apêl i'r Llys Apêl (Adran Sifil) yn bwysig, ar ôl cael caniatâd i'w dilyn naill ai gan y barnwr isod neu gan y Llys Apêl ei hun.



Cynyddodd prydlondeb gwneud penderfyniadau y Llys Apêl (Adran Sifil) hefyd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r amser cyfartalog a gymerwyd o bob un o'r dyddiadau cychwyn, y caniatâd i apelio, gwrandawriad y brif apêl, i drosglwyddo'r dyfarniad wedi disgyn<sup>1</sup>.

Ym mis Gorffennaf 2024, cyflwynwyd strwythur gweinyddol newydd i'r Llys Apêl (Adran Sifil), yn dilyn y newid i ddefnyddio CE-File y flwyddyn flaenorol.

Y newidiadau mwyaf arwyddocaol o safbwynt y defnyddwyr yw bod (a) staff bellach yn delio ag achosion yr holl ffordd drwodd mewn tri categori: Sifil, Cyhoeddus a Busnes, a (b) mae'r

swyddfa bellach wedi'i rhannu'n dri thîm sy'n delio â chychwyn yr apêl, paratoi achos, gorchmynion a gohebiaeth. Bydd apêl yn gadael ei thîm gweinyddol dim ond pan gaiff ei chyfeirio at y swyddfa restru naill ai ar gyfer dyrannu'r caniatâd i apelio i farnwr, neu ar gyfer rhestru gwrandawriad apêl.

Dyma brif fanteision y model hwn: (a) nid oes angen i ddefnyddiwr y llys symud rhwng gwahanol swyddfeydd yn dibynnu ar statws yr achos, a (b) mae'r cyflymder y mae achosion yn symud drwy'r system yn cynyddu.

---

<sup>1</sup> Data mewnol

## **Mae gwaith y tri thîm wedi'i rannu i'r categorïau canlynol o fathau o achosion:**

**Busnes:** gan gynnwys Siawnsri, Masnachol, Treth, Cystadleuaeth, Llys Technoleg ac Adeiladwaith ac Eiddo Deallusol.

**Preifat:** gan gynnwys Teulu, Anaf Personol, Llys Sirol, Mainc y Brenin Cyffredinol, Difenwi a'r Cyfryngau.

**Cyhoeddus:** gan gynnwys Cyfraith Gyhoeddus, Tribiwnlysoedd, Diogelwch Gwladol, Mewnfudo a Lloches, Cyflogaeth a Rheolau a Chostau Trefniadaeth Sifil.

Parhaodd y Llys Apêl (Adran Sifil) i gynyddu ei dryloywder a'i hygyrchedd. Cafodd y rhan fwyaf o'r gwrandawiadau eu ffrydio'n fyw. Parhaodd y Llys hefyd i eistedd yn rhanbarthol pryd bynnag yr oedd hynny'n bosibl ac yn briodol. Bu'n gwrando ar nifer o achosion yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn ystod y cyfnod adrodd.

## **Uchel Lys**

Mae Adran Mainc y Brenin (KBD) a'r rhestrau arbenigol ynddi wedi bod yn eithriadol o brysur yn 2023/2024, yn ogystal â barnwyr yr Adran sy'n delio ag amrywiaeth enfawr o waith yn y rhestrau arbenigol ac mewn rhai o'r tribiwnlysoedd, yn ogystal â rhoi achosion troseddol difrifol ar brawf ledled y wlad ar gylchdaith. Mae gwaith rhagorol y beirniaid arweiniol yn y rhestrau arbenigol i wella effeithlonrwydd wedi bod yn hollbwysig i berfformiad yr Adran, a hoffai'r Arglwyddes Brif Ustus ddiolch i'r holl farnwyr am eu gwaith caled eleni. Cyhoeddwyd fersiynau newydd o'r Canllawiau i Adran Mainc y Brenin a'r Llys Gweinyddol.



**Rwy'n gwybod mai...  
fy ased mwyaf yw fy  
marnwyr. Oherwydd  
bod barnwyr Cymru  
a Lloegr yn y llysoedd  
a'r tribiwnlysoedd yn  
gweithio'n ddiflino ac yn  
ddi-ofn gydag un pwrpas,  
sef gwasanaethu'r  
cyhoedd a rheolaeth y  
gyfraith, ac mae hynny'n  
rhoi gobaith a hyder i mi."**



Mae adolygiad barnwrol yn parhau i fod yn flaenllaw yng ngwaith y Llys Gweinyddol, yn ogystal ag apeliadau cynllunio ac estraddodi. Mae'r Llys Gweinyddol wedi delio â llawer o heriau uchel eu proffil o ran adolygiadau barnwrol, gan gynnwys yn y Llys Adrannol. Mae llawer iawn o'r gwaith hwn yn fater brys a daw i law ar fyr rybudd. Mae'n anodd cadw i fyny â swmp y gwaith ac mae gweinyddiaeth y Llys yn gweithio ar gapasiti llawn. Fel sy'n wir ar draws yr Uchel Lys, mae cefnogaeth weinyddol barhaus gan staff GLITEF yn hanfodol i restru a datrys achosion yn effeithlon. Y gobaith yw y bydd symud i system ddigidol ar gyfer yr holl waith achos (CE-File) yn helpu.

Mae'r Llys Cynllunio hefyd wedi bod yn brysur gyda nifer sylweddol o hawliadau yn ymwneud â phrosiectau seilwaith sy'n bwysig yn genedlaethol, materion amgylcheddol, tai i geiswyr lloches, a phenderfyniadau cynllunio sy'n ymwneud ag adeiladau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth.

Mae'r Llys Masnach yn rhan hanfodol o gynnydd rhyngwladol yr Uchel Lys yn yr awdurdodaeth hon. Mae'n parhau i gynnal ei enw da yn rhyngwladol am ymgyfreitha masnachol a chyflafareddu rhyngwladol, gyda chynnydd mewn hawliadau'n cael eu cychwyn ac achosion yn cael eu rhoi ar brawf yn y Llysoedd Masnach a Llysoedd y Morlys. Ar hyn o bryd mae'r Llys â nifer o achosion hir a chymhleth ar brawf sy'n cynnwys partïon rhyngwladol, lle mae'r partïon wedi dewis cyfraith Cymru a Lloegr i lywodraethu eu trafodion neu wedi cytuno ar awdurdodaeth llysoedd Lloegr i ddatrys unrhyw anghydfodau. Mae ceisiadau sy'n ymwneud â



chyflafareddu yn dal yn rhan bwysig o waith y Llys Masnach.

Mae Rhestr Sifil Adran Mainc y Brenin wedi gweld cynnydd parhaus yn nifer y gwrandawiadau sy'n ymwneud â gwaharddebau protestwyr a hawliadau sifil am gam-drin rhywiol. Mae'r Rhestr Cyfryngau a Chyfathrebu hefyd wedi cael blwyddyn brysur, gyda chynnydd mewn achosion difenwi, a hawliadau aflonyddu (ar lafar).

Mae'r Llys Technoleg ac Adeiladwaith (TCC) wedi gweld mwy o'i waith yn cael ei wneud y tu allan i Lundain. Mae hyn yn cyd-fynd â'r camau a gymerwyd i annog cynnydd yng ngwaith Adran Mainc y Brenin a gychwynwyd ac a glywyd mewn canolfannau fel Leeds, Birmingham, Bryste a Chaerdydd. Ar ben hynny, yn dilyn gweithredu Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 yn llawn a'r ymgyfreitha sydd eisoes yn dod i'r Llys Technoleg ac Adeiladwaith o ganlyniad, mae Gweithgor Deddf Diogelwch

Adeiladau wedi cael ei sefydlu i ystyried gweithdrefnau newydd a allai fod yn ofynnol ac i greu corff o wybodaeth a chanllawiau mewn perthynas â hawliadau Deddf Diogelwch Adeiladau. Mae anghydfodau rhyngwladol yn dal i ffurfio cyfran sylweddol o waith y Llys Technoleg ac Adeiladwaith a wneir yn Llundain, ac mae mwy a mwy o anghydfodau sy'n ymwneud â meddalwedd yn cael eu hymgyfreitha yn y Llys Technoleg ac Adeiladwaith erbyn hyn.

## Llysoedd Busnes ac Eiddo

Mae'r llwyth gwaith yn Llysoedd Busnes ac Eiddo Cymru a Lloegr wedi aros yn weddol sefydlog yn dilyn cynnydd cyson ers pandemig Covid. Mae'r llwyth gwaith uchel parhaus yn dangos mai'r llysoedd hyn yw'r awdurdodaeth o ddewis o hyd ar gyfer ymgyfreitha anghydfodau busnes rhyngwladol a domestig. Mae amseroedd arweiniol ar gyfer rhestrau o unrhyw hyd wedi aros yn sefydlog yn gyffredinol.

Mae'r Llysoedd Busnes ac Eiddo yn parhau i fod ar flaen y gad mewn meysydd ymgyfreitha sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial ac Asedau Digidol. Cynhelir seminarau hyfforddi arbenigol iawn yn rheolaidd i sicrhau bod barnwyr yn gallu delio â meysydd ymgyfreitha newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r Llysoedd Busnes ac Eiddo Rhanbarthol yn parhau i ehangu eu llwyth gwaith, gan alluogi mwy o anghydfodau i gael eu clywed yn lleol lle maent yn digwydd ac sy'n effeithio fwyaf ar bobl.

## Adran y Siawnsri

Mae'r Canllaw Siawnsri newydd<sup>2</sup>, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Gorffennaf 2022, yn dal i gael ei ddiweddarau gyda'r diweddariad diweddaraf ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r Canllaw Siawnsri newydd yn parhau i gysoni'r ymarfer yn yr Adran Siawnsri yn llwyddiannus â'r ymarfer yn y Llysoedd Busnes ac Eiddo eraill. Mae'r Canllaw hefyd yn berthnasol i'r Cofrestrfeydd Rhanbarth y tu allan i Lundain, ac eithrio lle mae angen canllawiau lleol.

Mae Meistri'r Siawnsri yn parhau i wrando ar dreialon wrth reoli achosion mwy ar y cyd â Barnwyr yr Uchel Lys hefyd. Mae Barnwyr y Llys Ansoffedd a Chwmniau yn parhau i fod yn brysur ar ôl blynyddoedd lawer o lwyth gwaith sy'n cynyddu'n raddol.

## Llys Sirol

Y blaenoriaethau ar gyfer cyfiawnder sifil yn ystod y cyfnod adrodd hwn oedd digideiddio, lleihau ôl-groniadau a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r system cyfiawnder sifil. Roedd barnwyr arweiniol sifil hefyd yn ceisio annog mesurau gyda'r nod o wella cynhwysiant ac amrywiaeth ar gyfer staff a'r farnwriaeth fel ei gilydd yn y Llysoedd Sirol.

Dyma rai llwyddiannau pwysig ar draws yr awdurdodaeth sifil:

- Cyhoeddi ail fersiwn o'r canllawiau ar arferion gorau rhestru. Cafodd y canllawiau eu cynnwys yn neunyddiau hyfforddi GLITEF ar gyfer staff rhestru er mwyn gwella cysondeb yn genedlaethol.

---

2 [The Business and Property Courts of England & Wales Chancery Guide 2022 \(judiciary.uk\)](https://www.judiciary.uk)

- Cyfeirio'n awtomatig at wasanaeth cyfryngu ar gyfer hawliadau bychain am arian a gychwynnir dan Reolau Trefniadaeth Sifil Rhan 7.
- Diwygio'r Rheolau Trefniadaeth Sifil a'r prif amcan i annog mwy o ddefnydd o ddulliau amgen o ddatrys anghydfod, gan arwain at lai o anghydfodau sy'n galw am wrandawriad terfynol gan y llys.
- Gweithredu'r trac canolradd newydd, gan ymestyn manteision costau sefydlog adferadwy i achosion sy'n werth hyd at £100,000.
- Defnyddio'r "Rhanbarth Rhithwir", a thrawsleoli Barnwyr Tribiwnlys, i alluogi gwrandawriadau cyflymach ar hawliadau bychain a hawliadau trac cyflym o Lundain a De-ddwyrain Lloegr. Cafodd y ddau gynllun eu gwella, a chynhaliwyd gwerthusiad llawn o drawsleoli.
- Cafodd y Cynllun Peilot Penderfyniadau ar Hawliadau Bychain ar Bapur ei ymestyn, yn dilyn data mewnol addawol yn dangos ei effeithiolrwydd o ran lleihau'r amser a gymerir i lawer o hawliadau gael penderfyniad barnwrol.
- Mae nifer y Barnwyr Sifil Dynodedig wedi cynyddu drwy greu saith swydd newydd. Mae'r swyddi arwain newydd hyn yn darparu arweinyddiaeth farnwrol leol fwy penodol.
- Cwblhaodd Meistr y Rholiau a'i uwch dîm arweinyddiaeth sifil eu 109fed ymweliad â chanolfan llys sifil (allan o 139). Mae'r ymweliadau hyn yn gwella morâl ac yn galluogi barnwyr a staff i gyfathrebu llwyddiannau a heriau lleol.
- Rhyddhawyd dilyniant achosion digidol o'r dechrau i'r diwedd i bob Llys Sirol ar gyfer achosion a gynrychiolir yn gyfreithiol hyd at £25,000. Derbyniodd achosion a gychwynnwyd yn y Gwasanaeth Hawliadau Arian Sifil Ar-lein orchymyn cyfarwyddiadau, ar gyfartaledd, 20 wythnos yn gynt na'r rhai a gychwynnwyd ar bapur.<sup>3</sup>

Roedd yr amser cyfartalog rhwng cychwyn a gwrandawriad ar hawliadau bychain wedi gostwng bedair wythnos rhwng Ch3 2023 a Ch1 2024.<sup>4</sup> Bydd y gwelliannau hyn yn parhau. Dylai'r cynllun gwella perfformiad sy'n cael ei weithredu gan y Ganolfan Busnes Cenedlaethol Sifil gael effaith gadarnhaol sylweddol ar brydlondeb.

Roedd yr amser a gymerodd hawliadau meddiant morgais rhwng (a) hawliad a gwarant, a (b) hawliad ac adfeddiannu, wedi gwella ychydig, er gwaethaf y nifer uchaf o hawliadau ers Ch2 2019.<sup>5</sup> Cynyddodd nifer yr hawliadau meddiant landlordiaid hefyd, yn enwedig yn Llundain.<sup>6</sup> Gall y crynodiad rhanbarthol hwnnw esbonio cynnydd bach mewn oedi, gyda swyddi barnwrol gwag yn Ne-ddwyrain Lloegr ddim yn helpu pethau.

3 [Fact sheet: Online Civil Money Claims - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

4 Adroddiad "Timeliness" (tudalen 9) ar [Civil Justice Statistics Quarterly Publication PowerBI Dashboard](#)

5 [Mortgage and landlord possession statistics: April to June 2024 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk) (Adran 2)

6 [Mortgage and landlord possession statistics: April to June 2024 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk) (Adran 5)





Arweiniodd y Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil grŵp traws-awdurdodaeth, a gyhoeddodd ganllawiau ar ddefnydd barnwrol cyrifol o ddeallusrwydd artiffisial ym mis Rhagfyr 2023. Mae'r grŵp yn parhau i adolygu a diweddarau'r canllawiau wrth i dechnoleg wella.

Mae'r Cyngor Cyfiawnder Sifil (CJC) wedi mynd o nerth i nerth. Cyhoeddodd Ran I o'i adroddiad Protocolau Cyn Gweithredu ym mis Awst 2023. Cynhaliodd gweithgor y Cyngor, a oedd yn ystyried y Weithdrefn i Bennu Galluedd Meddyliol mewn Achosion Sifil, seminar ymgynghorol llwyddiannus gyda phresenoldeb da ym mis Mawrth 2024. Disgwylir yr adroddiad terfynol yn Hydref 2024. Denodd Fforwm Cenedlaethol 2023 ar fynediad at gyfiawnder mewn argyfwng costau byw y nifer uchaf erioed o gynadleddwyr, gyda thrafodaethau ar ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, data cyfiawnder sifil, ADR, addysg a mwy. Cafodd ei annerch gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwyddes Brif Ustus a Meistr y Rholiau.

Mae'r Cyngor Cyfiawnder Sifil hefyd wedi ymgymryd â phrosiectau newydd pwysig sy'n mynd i'r afael ag (a) penderfyniad y Goruchaf Lys yn *PACCAR* a chyllid ymglyfreitha yn fwy cyffredinol, (b) data a graddau anfantais ddigidol, (c) diwygio'r drefn costau cyfreithiol a sefydlwyd gan Ddeddf Cyfreithwyr 1974, a (d) diwygio'r broses o orfodi dyfarniadau sifil.

Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein wedi'i gyfansoddi'n llawn ac wedi penodi amrywiaeth ardderchog o aelodau cymwys iawn i'w is-bwyllgor. Dyma fydd peiriant cread y System Cyfiawnder Digidol ar gyfer achosion sifil, ochr yn ochr ag achosion Teulu a Thribiwnlysoedd. Disgwylir y bydd y flwyddyn i ddod yn gweld ei rheolau cyntaf yn cael eu gwireddu yn y cyfnod cyn-gweithredu, yn ogystal â'r cyfnod ar ôl gweithredu.

Rhodddwyd blaenoriaeth uchel i gyfiawnder sifil yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd, gyda chynrychiolaeth gref o Gymru ar y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil a'r Cyngor Cyfiawnder Sifil, a llinellau adrodd rheolaidd gan Lywodraeth Cymru.

# Troseddol

## Adran Droseddol y Llys Apêl

Mae'r derbyniadau i Adran Droseddol y Llys Apêl wedi parhau i gynyddu'n raddol, fel y disgwyliwyd o ystyried y cynnydd mewn treialon a gwblhawyd yn Llys y Goron, ond yn ddiweddar maent wedi bod yn gostwng. Mae nifer y ceisiadau am ganiatâd i apelio yn erbyn euogfarn a/neu ddedfryd bron yn ôl i lefelau cyn y pandemig. Dylid nodi bod cyfran y ceisiadau a gyflwynwyd gan Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain wedi cynyddu eto eleni a'u bod yn cyfateb i oddeutu 40% o'r ceisiadau am euogfarn a ddaeth i law, sy'n ganlyniad i'r camau a gymerwyd i wella mynediad at gyfiawnder. Fodd bynnag, mae nifer y Cyfeiriadau gan y Twrnai Cyffredinol dan y cynllun Ddedfrydau Rhy Drugarog wedi gostwng.

Mae effeithlonrwydd yn parhau i fod yn ffocws i'r Swyddfa Apeliadau Troseddol, i wella ffyrdd o weithio i sicrhau bod Adran Droseddol y Llys Apêl yn gallu delio â'r cynnydd parhaus disgwylidig mewn derbyniadau, o ganlyniad i ragor o achosion yn cael sylw yn Llys y Goron. Mae cyfreithwyr y Swyddfa Apeliadau Troseddol, sy'n cefnogi'r barnwyr, bellach yn gallu defnyddio'r system ar gyfer chwarae teledu cylch cyfyng a deunydd fideo a ddefnyddir yn Llys y Goron. Bydd hyn o gymorth mawr o ran sicrhau bod y barnwyr yn gallu gweld y deunydd a ddarperir a'i fod wedi cael ei gyfeirio'n briodol gan y cwmsler, gan arbed amser barnwrol gwerthfawr mewn achosion sy'n ymwneud â deunydd o'r fath.

Fodd bynnag, mae'r flwyddyn gyfreithiol hon wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion sy'n weddill, sy'n adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y ceisiadau am ganiatâd i apelio sy'n aros i gael eu dyrannu i un barnwr. Mae'r cynnydd hwn oherwydd cyfuniad o effeithlonrwydd wrth baratoi ceisiadau i'w hystyried gan un barnwr, mwy o gymhlethdod, a hyd y seiliau dros apelio, sy'n gofyn am fwy o amser barnwrol a'r cyfyngiadau ar yr amser sydd ar gael i farnwyr ystyried ceisiadau papur.



Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Defnyddwyr Llys ym mis Hydref lle rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r defnyddwyr am ddyfarniadau arwyddocaol a roddwyd gan Adran Droseddol y Llys Apêl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac fe gafodd awgrym y byddai cylchlythyr yn cael ei baratoi a'i ddosbarthu ddwy neu dair gwaith y flwyddyn ymateb da. Atgoffwyd y defnyddwyr bod papurau a gyflwynwyd llai nag wythnos cyn y gwrandawriad yn cael eu hystyried yn "hwyr", a bod yn rhaid dilyn y weithdrefn gywir neu roedd posibilrwydd gwirioneddol na fyddai'r papurau'n cyrraedd yr holl farnwyr, neu rai ohonynt. Pwysleisiodd Is-lywydd Adran



Droseddol y Llys Apêl bwysigrwydd eiriolaeth lafar gan gofio y bydd y barnwyr wedi darllen yr holl bapurau'n llawn cyn y gwrandawriad.

Darparwyd dolenni hefyd i'r Canllaw i Achosion yn Adran Droseddol y Llys Apêl, sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ymarfer a gweithdrefnau ar gyfer defnyddwyr. Atgoffodd yr Is-lywydd yr ymarferwyr, er bod y rhan fwyaf o ddyfarniadau Adran Droseddol y Llys Apêl yn cael eu rhoi ex tempore, lle mae dyfarniad yn cael ei neilltuo, rhaid cadw at y cyfyngiadau sy'n berthnasol pan fydd y drafft yn cael ei ddsbarthu a dylid bod yn ofalus wrth ddarllen y cyfarwyddiadau a'r rhybuddion sy'n cyd-fynd â'r drafft pan fydd yn cael ei ddsbarthu.

Mae'r llys yn parhau i fabwysiadu agwedd hyblyg tuag at gynnal gwrandawriadau gerbron y llys: y sefyllfa ddiodyn yw bod gwrandawriadau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb, ond gan ganiatáu cyfranogiad o bell lle bo hynny er budd cyfiawnder. Rhoddwyd nodyn atgoffa arall yng nghyfarfod y Grŵp Defnyddwyr o'r broses gywir ar gyfer gwneud cais i gymryd rhan o bell yn achosion Adran Droseddol y Llys Apêl, neu arsylwi arnynt, gyda dolenni i'r ffurflenni perthnasol a nodyn atgoffa o'r cyfeiriad e-bost cywir i'w ddefnyddio. Eglurodd yr Is-lywydd fod yn rhaid i gyn-gynrychiolwyr cyfreithiol nad ydynt yn cael eu cyfarwyddo'n ffurfiol yn yr achosion apeliadol wneud cais i arsylwi ar yr achosion, yn hytrach na chymryd rhan ynddynt. Mae'r llys wedi caniatáu llawer o geisiadau i arsylwi ar achosion er mwyn hyrwyddo egwyddor cyfiawnder agored ac mae'r cyfleuster hwn yn arbennig o bwysig i ddiodefnyddwyr.

## Llys y Goron

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, eisteddodd Llys y Goron fwy o ddiwrnodau nag mewn blynyddoedd blaenorol, ar y lefel uchaf erioed o 107,700 diwrnod ar gyfer 2023/2024. Er gwaethaf hyn, mae'r ôl-groniad o achosion yn dal yn uchel am sawl rheswm, gan gynnwys cynnydd parhaus mewn derbyniadau a chymysgedd cynyddol gymhleth o achosion. (Nid oedd materion a oedd yn codi o ddyrannu diwrnodau eistedd yn Llys y Goron ar gyfer 2024/2025 wedi effeithio'n sylweddol ar berfformiad yn ystod y cyfnod adrodd hwn.) Mae'r Arglwyddes Brif Ustus yn cydnabod bod y sefyllfa hon wedi gosod gofynion enfawr ar y system ac mae'n ddiolchgar i'r rhai sy'n gweithio i sicrhau bod y llysoedd yn gweithredu mor effeithlon â phosibl dan yr amgylchiadau hyn.

Mae cynnydd ym mhoblogaeth y carchardai a remánd yn ystod y cyfnod adrodd hwn wedi effeithio ar achosion yn Llys y Goron, lle mae cyfyngiadau amser statudol ar gyfer diffynyddion yn y ddalfa yn golygu bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i achosion ar gyfer treialon. Mae effeithiau ar wasanaethau eraill, fel y Gwasanaethau Hebrwng Carcharorion i'r Ddalfa a darparu carcharorion yn hwyr, a materion sy'n ymwneud ag ystadau, hefyd wedi cyfrannu at yr amhariad arnynt. Er enghraifft, mae Llysoedd y Goron Harrow a Doncaster wedi cau oherwydd darganfyddiadau o goncrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC), ac mae diwrnodau wedi cael eu colli ar draws yr ystâd oherwydd gorboethi, oeri, awyru a gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio drwy gydol y flwyddyn. Bu cynnydd hefyd yn nifer y troseddau treisio a throseddau rhywiol difrifol

(RASSO) sy'n cael eu herlyn, sydd fel arfer â chyfradd ple dieuog uwch na mathau eraill o droseddau ac sy'n cymryd mwy o amser i ddelio â nhw yn y Llys oherwydd y materion sensitif dan sylw.

Gwnaed ymdrechion gan yr Uwch Farnwyr Llywyddol blaenorol a phresennol i wella prydlondeb mewn achosion RASSO, gan dargedu achosion sydd wedi bod yn Llys y Goron ers dwy flynedd neu fwy. Rhoddir dyddiadau treial penodol i achosion RASSO lle bynnag y bo modd yn y gwrandawriad cyntaf, gan ystyried argaeledd eiriolwyr. Roedd rhai Barnwyr Preswyl hefyd yn rhoi sylw i amseroldeb yn lleol drwy neilltuo amser llys penodol ar gyfer treial achosion RASSO lle mae'r diffynnydd ar fechniaeth – yn yr un modd mae'n ofynnol i'r llysoedd wneud mewn achosion lle mae'r diffynnydd yn y ddalfa.

Yn ogystal â'r cynlluniau hyn, mae Grŵp Gwella Llys y Goron wedi parhau i wneud cynnydd rhagorol o ran nodi meysydd i'w gwella, gan ganolbwyntio ar dri mesur allweddol y gellid eu defnyddio i wella prydlondeb: hyrwyddo pleon euog cynharach gan ddiffynnyddion, lleihau'r gyfradd treialon aneffeithiol, a lleihau nifer y gwrandawriadau fesul achos.

Mae'r Arglwyddes Brif Ustus yn diolch i'r Arglwydd Ustus Edis, yr Uwch Farnwr Llywyddol drwy gydol y cyfnod adrodd, am ei arweinyddiaeth o Grŵp Gwella Llys y Goron a'r holl aelodau am eu cyfraniad parhaus i wella effeithlonrwydd yn Llys y Goron.

### **Yn benodol, mae cynnydd wedi'i wneud drwy:**

- Fenter i annog rhestru pob achos RASSO cyn diwedd mis Gorffennaf 2024 ar gyfer pob achos a oedd dros ddwy flwydd oed o 31 Rhagfyr 2023 ymlaen.
- Gwella mynediad at gyfleusterau fideo a chynhyrchu carcharorion gan yr HMPPS.
- Gwella ansawdd y dystiolaeth yn ffeiliau'r heddlu a gyflwynir i Wasanaeth Erlyn y Goron drwy fenter ar y cyd rhwng Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.
- Cyflwyno grwpiau datrys problemau dan arweiniad barnwyr, dan arweiniad y Llywyddion Troseddau (mewn cydweithrediad â Barnwyr Preswyl), gyda chymorth GLITEF.
- Cyflwyno'r ddarpariaeth genedlaethol o Adroddiadau Cyn-Dedfrydu ar draddodi gan y Gwasanaeth Prawf er mwyn cefnogi dedfrydu yn y gwrandawriad cyntaf yn Llys y Goron; ac
- Ehangu cynllun peilot yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar ymgysylltu cynnar â 12 heddlu.

## Llys Ynadon

### Recriwtio

Rhwng mis Mawrth 2023 ac Ebrill 2024, penodwyd 2,029 o Ynadon i ynadaeth Cymru a Lloegr. Dyma'r nifer uchaf a benodwyd erioed mewn cyfnod o 12 mis. Mae hyn yn llwyddiant ysgubol, a hoffai'r Arglwyddes Brif Ustus ganmol pawb a chwaraeodd ran yn y gwaith o wneud hyn yn bosibl. Mae'n diolch yn arbennig i bawb sydd wedi gwirfoddoli i gyflawni'r rôl bwysig hon.

### Trawsnewid Cyfiawnder Diannod

Cafodd egwyddorion Trawsnewid Cyfiawnder Diannod eu hail-lansio ym mis Gorffennaf 2023 i wella'r ffordd mae achosion yn cael eu trin a'u prosesu drwy'r llysoedd ynadon. Ers hynny, rhoddwyd arweiniad ar yr egwyddorion i bob Llys Ynadon ac mae ynadon wedi cael cynnig hyfforddiant drwy'r Coleg Barnwrol. Mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion.

Fodd bynnag, mae cyfuniad o ffactorau wedi golygu nad yw adnewyddu'r egwyddorion wedi arwain at y gwelliannau a ddymunir mewn perfformiad yn y Llysoedd Ynadon dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae materion sy'n ymwneud â chyllid a chapasiti yn dal yn heriol, gyda baich achosion cynyddol a nifer fawr o remandio dros nos yn creu pwysau ychwanegol.

Mae Grŵp Trawsnewid Cyfiawnder Diannod yn parhau i chwilio am atebion a fydd yn lleddfu'r pwysau ar Lysoedd Ynadon ac yn cyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen.

## Ymgynghoriad Ardaloedd Cyfiawnder Lleol

Parhawyd â'r ymdrechion yn ystod y cyfnod hwn i weld yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn cael eu diddymu. Roedd ymgynghoriad cyhoeddus i fod i gael ei lansio yn y gwanwyn, ond mae hyn wedi cael ei ohirio dros dro oherwydd galw'r etholiad cyffredinol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnal trafodaethau gyda gweinidogion newydd i gadarnhau dileu'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol ac i barhau â'r ymgynghoriad. Mae'r farnwriaeth yn dal wedi ymrwymo i'r ymgynghoriad a fydd yn parhau i werthfawrogi pwysigrwydd cyfiawnder lleol, gan roi cyfle ar yr un pryd i gael mwy o hyblygrwydd yn y ffordd mae Llysoedd Ynadon yn gweithredu.

### Anufudd-dod Sifil

Drwy gydol mis Gorffennaf a dechrau Awst 2024, bu anhrefn treisgar ledled y wlad. Ymatebodd y system cyfiawnder troseddol yn gyflym i flaenoriaethu'r achosion hyn, gan sicrhau hyder yn y system, ac yn ddi-os bu'n rhwystr i ragor o anhrefn cyhoeddus. Roedd y Llysoedd Ynadon ar flaen y gad o ran delio â'r achosion hyn. Roedd hyn yn golygu eistedd yn hwyr i sicrhau bod achosion yn cael eu trin yn gyflym ac yn effeithiol er budd cyfiawnder. Roedd y rhain yn amgylchiadau eithriadol o heriol gyda mwy o bryder personol, ac mae'r Arglwyddes Brif Ustus yn canmol y Llysoedd Ynadon am eu holl ymdrechion a phawb sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol a sicrhodd fod yr achosion hyn yn cael blaenoriaeth.



## Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol

Roedd rhaglen waith sylweddol y Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys gwneud ystod eang o reolau a diwygiadau i reolau.

Roedd y rhain yn cynnwys rheolau i ategu darpariaeth statudol newydd ar gyfer anfon am dreial drwy weithdrefn ar-lein; i ategu darpariaethau statudol newydd eraill yn Neddf Diogelwch Gwladol 2023, Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 a Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023; i ddarparu ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol; i addasu'r rheolau ynghylch

darparu gwybodaeth o gofnodion llys; i godeiddio ymarfer cywiro gwallau yng nghofnodion y llys; i godeiddio ymarfer rheoli datgeliadau; i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith am gostau mewn achosion atal ac amserlen mewn achosion atafaelu; i godeiddio ymarfer ar y defnydd at ddibenion dedfrydu o ran gwybodaeth gyfrinachol am gymorth a roddwyd gan ddiffynnydd i'r heddlu; ac i reoleiddio gweithdrefn ar wasanaethu hysbyseb apêl ddiffygiol mewn achos estraddodi.

Dechreuodd y Pwyllgor adolygiad o'r rheolau ynghylch dirmyg llys yng ngoleuni cyfraith achosion ddiweddar a chynigion newydd Comisiwn y Gyfraith a dechreuodd baratoi ar gyfer atgyfnerthu'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol o'r newydd yn 2025.



## Cyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr

Mae'r Cyngor Dedfrydu yn gorff annibynnol. Yr Arglwyddes Brif Ustus yw ei Lywydd, a chaiff ei gadeirio gan uwch farnwr. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu ei adroddiad blynyddol ei hun, a chyhoeddwyd y diweddaraf ohono ym mis Hydref 2024.

Drwy gydol y cyfnod adrodd, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Ustus William Davis, parhaodd y Cyngor i gyflawni ei brif ddyletswydd o ddatblygu canllawiau sy'n hyrwyddo dull clir, teg a chyson o ddedfrydu.

Cynhaliodd y Cyngor bum ymgynghoriad ar ganllawiau dedfrydu newydd a diwygiedig, a oedd yn cynnwys: rhoi dedfrydau cymunedol a dedfrydau o garchar; troseddau blacmelio, llathruddo, a chamgarcharu; troseddau cymryd cerbydau gwaethygedig a materion moduro eraill; troseddau mewnfudo; a thagu a mygu nad ydynt yn angheuol. Cynhaliodd y Cyngor ei drydydd ymgynghoriad blynyddol ar ddiwygiadau amrywiol i ganllawiau dedfrydu. Daeth y diwygiadau canlyniadol i rym ar 1 Ebrill 2024. Cyhoeddodd y Cyngor ganfyddiadau o ddau werthusiad o'r canllawiau presennol, sef canllawiau penodol i droseddau sy'n ymwneud â gwrthrychau â llafn ac arfau ymosodol, a ffactorau gwaethygol a lliniarol mewn canllawiau dedfrydu yn gyffredinol a'u hesboniadau ehangach.

Yn ystod y cyfnod, cyhoeddodd y Cyngor ymatebion hefyd i adolygiad dedfrydu lladdiadau domestig y llywodraeth ac adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder, barn y cyhoedd a dealltwriaeth o ddedfrydu.

## System Gyfiawnder y Lluoedd Arfog

Mae Llysoedd y Lluoedd Arfog yn cynnwys y Llys Milwrol, y Llys Apêl Diannod (ar gyfer gwrandio apeliadau o benderfyniadau diannod a wneir gan Swyddogion Rheoli), a Llys Sifiliaid y Lluoedd Arfog (i wrando achosion dramor sy'n cynnwys sifiliaid sy'n ddarostyngedig i ddisgyblaeth y Lluoedd Arfog). Mae dwy Ganolfan Llys Milwrol barhaol (Catterick yng Ngogledd Swydd Efrog a Bulford yn Wiltshire).

### Y farnwriaeth

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Barnwr Adfocad Cyffredinol Cynorthwyol Alistair McGrigor wedi ymddeol, ar ôl 20 mlynedd o wasanaeth, a phenodwyd y Barnwr Adfocad Cyffredinol Cynorthwyol Darren Reed i Fainc y Gylchdaith. Mae dau Farnwr Adfocad Cyffredinol Cynorthwyol newydd wedi cael eu recriwtio: Barnwr Adfocad Cyffredinol Cynorthwyol John Atwill o'r Llynges Frenhinol a Barnwr Adfocad Cyffredinol Cynorthwyol Tom Mitchell o fainc y Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon). Mae'r farnwriaeth llawn amser yn Llysoedd y Lluoedd Arfog bellach yn gyflawn am y tro cyntaf ers bron i ddwy flynedd.

Dymuna'r Arglwyddes Brif Ustus ddiolch i Alistair am ei wasanaeth ymroddedig dros ddau ddegawd ac mae'n estyn ei llongyfarchiadau gwresog i bawb a benodwyd.

### Nifer yr achosion

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd bychan yn nifer staff y Lluoedd Arfog sy'n dod gerbron y Llys Milwrol. Yn y cyfnod rhwng 1 Awst 2023 a 31



Gorffennaf 2024, rhoddwyd 207 o staff unigol y Lluoedd Arfog ar brawf yn y Llys Milwrol a chafodd eu hachosion eu cwblhau. Mae hyn yn cymharu â 193 o unigolion gydag achosion a gwblhawyd yn yr un cyfnod â'r flwyddyn flaenorol.

### **Amseroedd rhestru**

Mae'r amseroedd rhestru yn y Llys Milwrol yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Rhestrir Gwrandawiadau Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial o fewn 42 diwrnod i'r cyfarwyddyd achos gan Awdurdod Eryl y Lluoedd Arfog. Mae hwn yn ddangosydd perfformiad allweddol ar gyfer Gwasanaeth y Llysoedd Milwrol y maent wedi'i fodloni yn y ddau chwarter diwethaf. Ar gyfartaledd, yr amser aros rhwng y cyfarwyddyd gan Awdurdod Eryl y Lluoedd Arfog a'r treial yn y Llys Milwrol yw 176 diwrnod, neu ychydig llai na chwe mis. Y ffactor mwyaf cyffredin sy'n mynnu bod achosion yn cael eu rhestru y tu hwnt i'r dangosydd perfformiad allweddol yw argaeledd cwnsler yr amddiffyniad.

Mae amseroedd rhestru byr yn Llysoedd y Lluoedd Arfog, yn enwedig ar gyfer achosion blaenoriaeth uchel fel y rheini sy'n ymwneud â honiadau o dreisio ac ymosodiadau rhywiol difrifol, yn ffordd bwysig o gefnogi effeithiolrwydd gweithredol y Lluoedd Arfog drwy eu datrys yn brydlon er budd dioddefwyr, diffynyddion a'u hunedau. Mae oedi cyn cael achos i dreial yn arwain at ansicrwydd ac yn gwaethygu teimladau o bryder ymysg dioddefwyr a diffynyddion. Pan fydd yr ansicrwydd yn para am fisoedd, neu flynyddoedd, gall hyn danseilio morâl ac effeithiolrwydd gweithredol yr unedau y maent yn perthyn iddynt.

### **Rheoli Achosion**

Cafodd system rheoli achosion newydd ar gyfer Gwasanaeth y Llysoedd Milwrol, Thomson Reuters' Case Center, ei rhoi ar waith ym mis Medi 2023. Mae'n gydnaws â system Connect Heddlu'r Lluoedd Arfog. Mae'r adborth gan y farnwriaeth, cyfreithwyr a staff sy'n defnyddio'r system wedi bod yn gadarnhaol. Mae Case Center yn uwchraddiad sylweddol o ran gallu rheoli achosion ac mae wedi gwneud y broses yn fwy effeithlon ac effeithiol.

### **TG ar gyfer aelodau'r bwrdd**

Yn ddiweddar, mae Gwasanaeth y Llysoedd Milwrol wedi cyflwyno gliniaduron i aelodau'r bwrdd, gyda'r cyfleuster i arddangos deunydd fideo a dogfennol fel teledu cylch cyfyng, crynodebau o gyfweiliadau, mapiau, cynlluniau a chyfarwyddiadau barnwrol. Gellir anfon dogfennau sy'n cael eu llwytho ar Case Center at aelodau'r bwrdd i'w gweld a'u defnyddio yn eu hystyriaethau. Mae'r Llys Milwrol, mewn rhai achosion, yn gwbl ddi-bapur, gan gael gwared ar yr angen i gopïo dogfennau ar gyfer byrddau ac eiriolwyr. Bydd rhai achosion o hyd lle bydd angen copïau papur o ddogfennau.

### **Achosion sy'n cynnwys tystiolaeth filwrol gudd**

Mae dau achos diweddar yn y Llys Milwrol wedi dangos yr angen i allu clywed a chofnodi tystiolaeth a ddisbarthwyd yn gyfrinachol. Ar ôl adolygiad ac uwchraddiad diogelwch diweddar, gall Gwasanaeth y Llysoedd Milwrol yn Bulford gynnal treialon nawr, neu achosion dedfrydu, lle mae tystiolaeth heb ei dosbarthu yn cael ei chlywed mewn llys agored, a thystiolaeth gyfrinachol yn cael



ei chlywed mewn llys caeedig, sy'n cydymffurfio'n llawn â gofynion diogelwch y Weinyddiaeth Amddiffyn.

### **Croesholiad wedi'i recordio ymlaen llaw**

Mae'r ddwy Ganolfan Llys Milwrol bellach yn gallu cynnal holiad wedi'i recordio ymlaen llaw o dystion bregus, gan ddarparu'r ystod lawn o fesurau arbennig sydd ar gael yn y System Cyfiawnder Sifiliaid.

### **Aelodau'r Bwrdd**

Dechreuodd cynllun peilot a oedd yn defnyddio byrddau tri Llu Arfog (sy'n cyfateb i reithgorau) yn y Llys Milwrol a'r Llys Apêl Diannod ym mis Hydref 2023. Cynrychiolir pob Llu Milwrol yn gyfartal ar y bwrdd. Mae'r Barnwr Adfocad Cyffredinol wedi croesawu'r datblygiad hwn gan ei fod yn caniatáu rhestru achosion cyn gynted ag y bo modd, yn hytrach nag aros i fwrdd un Llu Arfog fod ar gael, sy'n golygu bod achosion yn cael eu cwblhau'n gynt gyda manteision i'r staff dan sylw a'u hunedau. Mae byrddau Tri Llu Arfog wedi lleihau costau Gwasanaeth y Llysoedd Milwrol yn sylweddol, ac adnoddau sy'n cael eu gwario ar leihau gwrthdaro rhwng aelodau bwrdd.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan aelodau'r bwrdd yn ystod y cynllun peilot.

### **Prosiect Trawsnewid Milwrol y Gymanwlad**

Ers 2021, mae'r Barnwr Adfocad Cyffredinol wedi bod yn cymryd rhan yn y prosiect hwn, sy'n cael ei gydlynu gan Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad, i gefnogi aelod-wladwriaethau foderneiddio eu systemau cyfiawnder milwrol.

## **Teulu**

### **Cyfraith Breifat**

Mae achosion plant cyfraith breifat yn datrys anghydfodau rhwng rhieni neu eraill ac maent yn canolbwyntio ar drefniadau gofal a lles plentyn yn y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2024, dechreuwyd 51,070 o achosion, sef gostyngiad o 2% rhwng yr un cyfnod a mis Mawrth 2023. Yr hyd cyfartalog ar gyfer achos rhwng Ionawr a Mawrth 2024 oedd 43.9 wythnos, i lawr o 45.7 wythnos ar gyfer yr un cyfnod yn 2023.

Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, ehangwyd cynllun peilot y Llysoedd Braenaru yn llwyddiannus, a lansiwyd yn Dorset a Gogledd Cymru yn 2022. Mae'r Llysoedd Braenaru yn canolbwyntio ar ddatrys anghydfodau'n gynharach drwy ddarparu i'r llys, ar ddechrau'r achos, adroddiad effaith ar y plentyn sy'n canolbwyntio ar effaith anghydfod rhwng rhieni ar y plentyn. Mae'r dystiolaeth gychwynnol yn awgrymu bod y cynllun peilot wedi bod yn llwyddiannus yn Dorset a Gogledd Cymru, gan ganiatáu iddo gael ei ehangu ar draws yr awdurdodaeth. Bydd yr ardaloedd llys mwy newydd hyn yn profi'r model ymhellach i ddeall a oes modd datrys achosion yn gynt.

## Cyfraith Gyhoeddus

Mae achosion cyfraith gyhoeddus plant yn cynnwys achosion a ddygwyd gan awdurdodau lleol i amddiffyn plentyn rhag niwed sylweddol a sicrhau eu bod yn cael y gofal y mae arnynt ei angen.

Dechreuwyd 15,688 o achosion yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2024, gostyngiad o 4% ar yr un cyfnod hyd at fis Mawrth 2023. Cyfartaledd hyd achos ar gyfer achosion cyfraith gyhoeddus rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024 oedd 37.7 wythnos, i lawr o 40.1 wythnos ar gyfer yr un cyfnod yn 2023. Ym mis Mawrth 2024, roedd 10,809 o achosion cyfraith gyhoeddus yn weddill o'i gymharu â 12,081 ym mis Mawrth 2023, sy'n ostyngiad o 10%. Mae hyn yn arwydd o'r gwelliannau a gafwyd o ganlyniad i ail-lansio'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ym mis Ionawr 2023.

Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd Is-grŵp Mabwysiadu'r Gweithgor Cyfraith

Gyhoeddus ei adroddiad interim: Argymhellion Arferion Gorau mewn perthynas â Mabwysiadu. Roedd yn ystyried yr amrywiaeth eang o amgylchiadau lle mae gorchmynion mabwysiadu'n cael eu gwneud ac yn cynnig argymhellion ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys bod yn agored o fewn mabwysiadu.

## Y Llys Rhwymedi Ariannol

Mae'r Llys Rhwymedi Ariannol yn rhan arbenigol o'r Llys Teulu sy'n helpu i sicrhau, ar ôl i briodas neu bartneriaeth sifil chwalu, bod cyllid teulu'n cael ei ddatrys yn deg ac yn effeithlon.

Gwnaed 44,580 o geisiadau rhwymedi ariannol yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2024, cynnydd o 9% ar yr un cyfnod y llynedd. Mae nifer y ceisiadau am rwymedi ariannol a wnaed drwy gydsyniad ar y dechrau yn cyfrif am 71% o'r holl geisiadau a wnaed ac wedi cynyddu 11% i 31,580 yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2024. Yn gymharol, cynyddodd achosion a oedd yn cael eu herio ar adeg eu cyflwyno 7% i 13,000.

## Tryloywder

Parhawyd i weithio ar weithredu'r argymhellion a gyhoeddwyd yn Adroddiad Adolygiad Tryloywder Llywydd yr Adran Deulu. Cyflwynwyd Cynllun Peilot Adroddiadau'r Cyfryngau (sy'n caniatáu i newyddiadurwyr achrededig neu flogwyr cyfreithiol fynychu ac adrodd ar wrandawiadau Llys Teulu) i 16 ardal arall ym mis Ionawr. Mae bellach yn fyw mewn oddeutu 50% o holl ardaloedd y llysoedd teulu. Cyhoeddwyd canllawiau i helpu barnwyr mewn ardaloedd peilot ymgysylltu â'r cyfryngau ac i wneud



dyfarniadau'n ddiennw. Lansiodd y Llys Rhwymedi Ariannol ei Gynllun Peilot Adroddiadau yn y Llys Teulu Canolog, Birmingham a Leeds ym mis Ionawr.

Roedd y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) wedi gwerthuso effaith y Cynllun Peilot Adroddiadau ac wedi cynnal ymchwil hefyd ar argaeledd data. Cyhoeddwyd y ddau adroddiad ym mis Gorffennaf. Mae'r canfyddiadau'n dangos diffyg data am y gefnogaeth i deuluoedd cyn iddynt gychwyn achosion llys. Mae gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i deuluoedd ar ôl penderfyniadau'r llys hefyd yn gyfyngedig.

## Amddifadu o Ryddid

Roedd ceisiadau i amddifadu pobl ifanc o'u rhyddid dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys yn dal i gael eu cyhoeddi yn y Llysoedd Barn Brenhinol. Mae ffigurau blynyddol gan Cafcass yn dangos bod nifer y gorchmynion amddifadu o ryddid a roddir bob blwyddyn wedi cynyddu o 102 yn 2017-18 i 1,238 yn 2023-24. Mae'r cynnydd yn y nifer sy'n cael y gorchmynion hyn yn adlewyrchu'r nifer cynyddol o geisiadau a dderbyniwyd gan yr Uchel Lys gan awdurdodau lleol, a'r graddau y mae'r cynllun statudol yn methu â bodloni'r galw am leoliadau lles diogel. Nid yw'n ymddangos bod ceisiadau am orchmynion amddifadu o ryddid yn gostwng ac mae'r farnwriaeth yn poeni bod y gorchmynion hyn yn cael eu gwneud y tu allan i unrhyw drefn statudol, gyda barnwyr yn teimlo eu bod yn gorfod gwneud y gorchmyn, gan fod peidio â gwneud hynny'n golygu bod yr unigolyn ifanc mewn mwy o berygl.

## Y Llys Gwarchod

Mae'r Llys Gwarchod yn llys arbenigol sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion ariannol neu les i bobl sydd heb y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniadau hynny.

Ym mis Ionawr i fis Mawrth 2024, gwnaed 8,525 o geisiadau i'r Llys Gwarchod o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, sef gostyngiad o 5% ar y chwarter cyfatebol yn 2023 (8,948 o geisiadau). Roedd nifer y gorchmynion a wnaed o dan y Ddeddf yn 14,679 – mae hyn yn gynydd o 15% ar yr un chwarter yn 2023.





A man with grey hair and glasses, wearing a dark suit and a blue and white striped tie, is focused on his work. He is sitting at a desk with a laptop, his hands resting on the keyboard. In the background, another person is visible, working on a laptop, but they are out of focus. The office environment is bright and professional.

# **Y Farnwriaeth Fodern**





# Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae amrywiaeth, cynhwysiant a chydaddoldeb yn hanfodol i reolaeth y gyfraith ac yn sail i lawer o waith deiliaid swyddi barnwrol. Mae'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Barnwrol<sup>7</sup> bellach yn ei phedwaredd flwyddyn. Ei nod cyffredinol yw cynyddu amrywiaeth bersonol a phroffesiynol y farnwriaeth drwy gynyddu nifer yr ymgeiswyr am benodiad barnwrol o gefndiroedd amrywiol. Mae'r Strategaeth hefyd yn ceisio cefnogi cynnydd yr ymgeiswyr hyn yn y farnwriaeth ac annog cyfraddau cadw staff uwch, drwy feithrin diwylliant cynhwysol ar gyfer pawb sy'n dal swyddi barnwrol. Cyhoeddir cynnydd yn erbyn y Strategaeth bob blwyddyn.

Mae'r amcanion a nodir yn y Strategaeth yn cyd-fynd â meysydd ffocws â blaenoriaeth yr Arglwyddes Brif Ustus sy'n cynnwys undod barnwrol. Yr Arglwyddes Ustus Whipple sy'n olynu'r Arglwyddes Ustus Simler fel y Prif Farnwr dros Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mis Tachwedd 2023 ac mae'n goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth.

---

<sup>7</sup> <https://www.judiciary.uk/about-the-judiciary/diversity/diversity-strategy-2020-25/>



**Ar amrywiaeth – rwy’n teimlo’n frwd dros weithio o’r gwaelod i fyny, a gweithio gyda’r proffesiynau, mewn gwirionedd gyda’r ysgolion a’r prifysgolion, o’r dechrau i sicrhau ein bod yn cael y bobl fwyaf abl, y garfan fwyaf amrywiol o bobl, i ddewis ein beirniaid ohoni.”**

Cafodd y Datganiad o Ymddygiad Disgwyliedig<sup>8</sup>, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Ionawr 2023, ei gynnwys mewn Canllaw diwygiedig ar Ymddygiad Barnwrol i helpu deiliaid swyddi barnwrol i ddeall y safonau ymddygiad a ddisgwyilir y tu mewn a’r tu allan i ystafell y gwrandawriad. Mae’r Datganiad yn nodi’n glir y disgwyilir yr un safonau ymddygiad rhwng deiliaid swyddi barnwrol fel ag y maent gyda staff a defnyddwyr y llysoedd. Mae’n pwysleisio’r cyfrifoldeb ar yr unigolyn i helpu i feithrin amgylchedd cadarnhaol lle mae amrywiaeth yn cael ei chydabod a’i gwerthfawrogi, a phawb yn cael eu trin ag urddas a pharch. Cyfrifoldeb pob deiliad swydd farnwrol

yw sicrhau eu bod yn cyfrannu at yr amgylchedd cadarnhaol hwn.

Mae’r farnwriaeth yn parhau i chwarae rhan weithredol mewn gwaith allgymorth cymunedol a chefnogi ceisiadau am swyddi barnwrol. Mae dros 140 o farnwyr a 60 o ynadon yn gwirfoddoli fel barnwyr ac ynadon Cysylltiadau Cymunedol ac Amrywiaeth yn eu hardaloedd lleol, gyda phob un yn gwneud gwaith allgymorth cymunedol gyda gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, grwpiau cymunedol a sefydliadau addysgol. Mae’r ffurflen flynyddol ddiweddaraf o weithgarwch yn dangos eu bod wedi gwneud dros 900 ymgysylltiad<sup>9</sup>.

Mae’r farnwriaeth yn parhau i gynnal seminarau ceisiadau barnwrol ac yn darparu cynlluniau mentora a chysgodi ar gyfer y rhai sy’n ystyried gwneud cais am benodiad i’r farnwriaeth ac ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol presennol, sy’n ystyried rolau barnwrol eraill. Rhwng mis Awst 2023 a mis Medi 2024, cafodd ychydig o dan 400 o ymarferwyr cyfreithiol gipolwg ar waith barnwr drwy’r Cynllun Cysgodi Gwaith Barnwrol. Mae’r gronfa fentora yn cael ei chynyddu i ateb y galw. Daeth tua 2,900 o bobl i seminarau barnwrol cyn ymgeisio yn ystod y 12 mis o fis Awst 2023. Nid yw’n bosibl gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng cymryd rhan yn y cynlluniau hyn a chyfraddau ceisiadau barnwrol. Ar hyn o bryd, mae gweithwyr proffesiynol cyfreithiol du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn gwneud cais am benodiad barnwrol ar gyfradd uwch na’r gronfa gymwys ac mae’r proffil hwn wedi cynyddu rhwng 2022-23 a 2023-24.

8 <https://www.judiciary.uk/guidance-and-resources/statement-of-expected-behaviour/>

9 Daw’r holl ffigurau ymgysylltu yn y paragraff hwn a’r paragraffau dilynol o’r ffurflenni gweithgarwch a ddaeth i law. Dylid nodi y gallai ymgysylltiadau eraill ddigwydd na fyddant yn cael eu cofnodi yn y broses hon.





Roedd diweddariad blynyddol 2024 ar y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Barnwrol yn nodi'r tangynrychiolaeth bresennol o farnwyr du fel maes i ganolbwyntio arno. Dangosodd adolygiad o lefelau cyfranogiad cyfreithwyr du mewn rhaglenni allgymorth fod cyfreithwyr du yn cymryd rhan ar lefelau cynrychioliadol, pan gânt eu meincnodi yn erbyn y gronfa gymwys o gyfreithwyr du. Roedd yr adolygiad hwn yn rhoi gwybodaeth a fydd yn golygu bod modd gwneud rhagor o waith, fel allgymorth wedi'i dargedu'n well, gyda gweithwyr cyfreithiol proffesiynol du.

Roedd diweddariad blynyddol 2024 hefyd wedi nodi bod mwy o gefnogaeth i ddeiliaid swyddi barnwrol anabl yn flaenoriaeth. Mae cydweithio'n parhau rhwng y farnwriaeth, GLITEF a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i

gyflawni'r nod hwn. Roedd adnoddau ychwanegol ar gael i helpu deiliaid swyddi barnwrol anabl drwy leihau rhwystrau a lleihau oedi wrth ddarparu addasiadau rhesymol.

Mae'r farnwriaeth yn ail yrfa ac mae cynyddu amrywiaeth y farnwriaeth yn ymdrech ar y cyd gyda'r proffesiynau cyfreithiol ac eraill. Mae'r farnwriaeth yn parhau i fod yn aelod gweithredol o'r Fforwm Amrywiaeth Barnwrol<sup>10</sup>, y mae'r proffesiynau cyfreithiol, y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn aelodau ohono.

Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddwyd ystadegau wedi'u diweddarau<sup>11</sup> ar amrywiaeth yn y farnwriaeth bresennol, y broses benodi, a'r proffesiynau cyfreithiol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod yr hyn sydd ar y gweill yn parhau i fod yn weladwy o'r proffesiynau hyd at benodi i'r farnwriaeth.

<sup>10</sup> <https://judicialappointments.gov.uk/equality-and-diversity/diversity-and-equality-measures/judicial-diversity-forum/>

<sup>11</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics/diversity-of-the-judiciary-2024-statistics/diversity-of-the-judiciary-legal-professions-new-appointments-and-current-post-holders-2024-statistics>

I gryfhau'r gefnogaeth i ymgeiswyr ar y Rhaglen Allgymorth wedi'i Dargedu<sup>12</sup>, mae'r farnwriaeth a'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol wedi cyd-lansio'r cynllun Arweinwyr Barnwrol, gyda 241 o ymgeiswyr yn cael eu cefnogi gan y rhaglen. Mae 171 o farnwyr yn gweithredu fel arweinwyr barnwrol, gan gefnogi ymgeiswyr i ddeall pob agwedd ar y broses ymarferion dethol.

Parhaodd y rhaglen addysg farnwrol cyn ymgeisio i gefnogi darpar ymgeiswyr am swyddi barnwrol. Mae'n darparu adnoddau digidol a grwpiau trafod dan arweiniad barnwr i gefnogi cyfreithwyr o ddemograffeg heb gynrychiolaeth ddigonol, sy'n dymuno sicrhau rôl farnwrol. Mae tair carfan o gyfranogwyr yn y rhaglen bob blwyddyn, gyda chyfanswm o 31 barnwr ar hyn o bryd yn helpu i hwyluso'r gweithdai.

Mae'r Cynllun Mentora Barnwrol o Chwith yn rhoi cyfle i farnwyr gael eu mentora gan weithwyr cyfreithiol proffesiynol o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae carfan 2024 ar y gweill gyda 71 o feirniaid yn cymryd rhan.

## Cyfathrebu barnwrol

Yn ystod y cyfnod adrodd, ceisiodd tîm Cyfathrebu'r Swyddfa Farnwrol gefnogi gwell cyfathrebu mewnol gan aelodau'r uwch farnwriaeth â phob deiliad swydd farnwrol.

I gefnogi blwyddyn gyntaf yr Arglwyddes Brif Ustus yn y swydd, yn fewnol i'r farnwriaeth, cyhoeddwyd nifer o erthyglau a fideos, a chyflwynwyd cyfres o fforymau agored. Roedd y rhain yn galluogi deiliaid swyddi barnwrol i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Arglwyddes Brif Ustus a gofyn amrywiaeth o gwestiynau iddi. Roedd y fforymau'n gymysgedd o ddigwyddiadau cenedlaethol a oedd yn agored i bawb gyda rhai sesiynau penodol i gylchdaith. Roeddent yn cyddaro ag ymweliadau'r Arglwyddes Brif Ustus â llysoedd a thribiwnlysoedd yn yr ardaloedd hynny.

Ym Mehefin 2024, lanswyd mewnrwyd farnwrol newydd yn dilyn adborth a mewnbwn gan y farnwriaeth ar sut y gellid gwella'r safle. Mae wedi cael ei ailstrwythuro, gyda swyddogaeth chwilio well i'w wneud yn fwy modern a hygyrch. Mae'r adborth gan ddeiliaid swyddi barnwrol o ran y safle newydd wedi bod yn gadarnhaol, yn enwedig mewn perthynas â llywio drwy'r safle'n well.

<sup>12</sup> <https://judicialappointments.gov.uk/targeted-outreach-and-research-team/>





**Mae dros hanner ein barnwyr tribiwnlys yn gyfreithwyr yn ôl eu cefndir. Rydym yn gwneud yn llawer gwell gyda menywod, yn sicr hyd at y lefelau uwch, ac rydym yn gwneud cynnydd gyda rhai lleiafrifoedd ethnig. Nid ydym yn gwneud digon o gynnydd o ran pobl ddu yn benodol. Nid oes gennym ddigon o farnwyr du, ac mae hynny'n flaenoriaeth i mi edrych arni eleni, a barnwyr anabl hefyd. Mae hynny'n rhywbeth nad ydw i'n meddwl ein bod ni wedi edrych arno'n ddigonol yn y gorffennol, ac mae'r rhain yn ddau o'n meysydd ffocws o dan ein strategaeth ar gyfer eleni."**

## Arweinyddiaeth

Mae llawer o'r cyfrifoldebau dros les, hyfforddiant ac arweiniad barnwyr sydd wedi'u breinio yn yr Arglwyddes Brif Ustus wedi'u dirprwyo i farnwyr arweiniol ar draws y farnwriaeth, ac yn cael eu cyflawni'n ddyddiol ganddynt. Mae'r Arglwyddes Brif Ustus yn ddiolchgar i'r holl feirniaid arweiniol am eu gwaith yn sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu a'i ddarparu'n effeithlon ac am eu cefnogaeth fugeiliol i gydweithwyr.

Mae barnwyr mewn rolau arwain yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau uwch yn ogystal â'u rolau craidd fel barnwyr. Felly, mae'n bwysig bod barnwyr arweiniol hefyd yn cael eu cefnogi'n briodol i gyflawni gweithgareddau arwain ac yn eu datblygiad ehangach.

Parhaodd y Coleg Barnwrol i ddarparu hyfforddiant arweinyddiaeth i'r rheini sy'n newydd i arweinyddiaeth drwy'r Rhaglen Arweinyddiaeth Hanfodol, sy'n gwrs tri diwrnod gorfodol i'r holl ddeiliaid swyddi barnwrol sydd newydd gael eu penodi i swyddi o'r fath. Rhwng mis Hydref 2023 a mis Gorffennaf 2024, cyflwynodd y Coleg bum Rhaglen Arweinyddiaeth Hanfodol i gyfanswm o 92 arweinydd barnwrol.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r gefnogaeth a roddir i farnwyr arweiniol wedi gwella. Cafodd dull newydd o gynefino barnwyr arweiniol ym Marnwriaeth y Llysoedd ei dreialu yn 2023/24. Gan ategu'r hyfforddiant a ddarperir gan y Coleg Barnwrol. Mae'r sesiynau cynefino yn rhoi'r wybodaeth ymarferol sydd ei hangen ar farnwyr arweiniol newydd.



Ym mis Mawrth, dechreuwyd cynllun peilot blwyddyn o hyd i gefnogi barnwyr arweiniol gyda'u datblygiad eu hunain. Bydd yr "Adborth Arweinyddiaeth" hwn yn cysylltu â gweithgareddau datblygu eraill ar gyfer barnwyr arweiniol, gan gynnwys trafodaethau rhyngddynt hwy a'u huwch farnwyr arweiniol eu hunain.

Mae'r Cynllun Mentora Cymheiriaid Barnwrol wedi parhau i gynnig cyfle i farnwyr cyflogedig gael eu mentora gan farnwyr mwy profiadol. Mae barnwyr arweiniol wedi parhau i gymryd rhan mewn cynlluniau gwerthuso ar draws y farnwriaeth sy'n cefnogi datblygiad barnwyr sy'n derbyn ffi.

Cynhaliwyd yr Arolwg o Agweddau Barnwrol yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2024 ar gyfer yr holl Aelodau Di-Gyfreithiol a Barnwyr sy'n derbyn cyflog ac sy'n derbyn ffi, gan gynnwys pob Crwner sy'n derbyn cyflog

ac sy'n derbyn ffi. Nod yr arolwg yw asesu agweddau'r farnwriaeth mewn meysydd cyflogaeth a rheoli allweddol gan gynnwys y profiad o fod yn ddeiliad swydd farnwrol, morâl, amodau gwaith, tâl, hyfforddiant a datblygiad personol, cadw staff ac arweinyddiaeth. Edrychaf ymlaen at dderbyn y canlyniadau a'u defnyddio i gefnogi gwaith pellach i wella profiad y farnwriaeth.

## Recriwtio a phenodi

Rhwng mis Awst 2023 a mis Medi 2024, penodwyd 724 o ddeiliaid swyddi barnwrol ar draws pob awdurdodaeth llys a thribiwnlys. Mae hyn yn dilyn ymdrechion recriwtio sylweddol ar draws y llysoedd a'r tribiwnlysoedd dros y blynyddoedd ariannol blaenorol a byw.

Ar ôl ymarfer recriwtio llwyddiannus arall, dim ond un swydd wag yn Adran Mainc y Brenin sydd gan yr Uchel Lys ar hyn o bryd. Bydd yr ymarfer nesaf yn cael ei lansio ym mis Hydref ar gyfer penodiadau ar draws Adran Mainc y Brenin a'r Adran Siawnsri. Ers 2019, mae tueddiad bach ar i fyny yn y proffil cyffredinol o farnwyr Uchel Lys du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws ethnigrwydd unigol sy'n ffurfio'r grŵp hwn.

Mae ymarfer Barnwyr Cylchdaith wedi dod i ben yn ddiweddar gyda swyddi gwag yn cael eu llenwi'n llwyddiannus mewn Llysoedd Sifil a Theulu; fodd bynnag, nid yw pob swydd wag Trosedd wedi'u llenwi. Mae'r ymarfer Barnwyr Cylchdaith nesaf wedi'i lansio a disgwylir argymhellion yn ystod haf 2025. Yn debyg i'r llynedd, mae diffyg sylweddol yn y broses o recriwtio Barnwyr Rhanbarth i eistedd yn y Llys Sirol a'r Llys Teulu. I helpu gyda'r bylchau mewn capasiti ar y Fainc Ddosbarth, yn ogystal â recriwtio rheolaidd, anfonwyd cymysgedd o hyd at 40 o Farnwyr Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a Barnwyr Cyflogaeth i wrando ar waith y Llys Sirol (Sifil a Theulu) drwy eu defnyddio'n hyblyg ddiwedd 2023/ dechrau 2024. Ar ben hynny, bydd yr ymarfer Barnwyr Rhanbarth nesaf a fydd yn cael ei lansio yn ddiweddarach yn 2024 yn canolbwyntio ar gylchdaith Llundain a De-ddwyrain Lloegr lle mae prinder Barnwyr Rhanbarth yn fwyaf difrifol. Mae dull gweithredu ar gyfer recriwtio wedi'i dargedu'n well yn debygol o barhau hyd at 2025-26.

Mae gwaith yn parhau i wneud swyddi barnwrol cyflogedig mor ddeniadol â phosibl, gan leihau gorddibyniaeth y

system ar swyddi sy'n derbyn ffi. Mae'r farnwriaeth yn ymwneud llawer â'r maes hwn, fel y mae'r proffesiynau cyfreithiol, a'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

Yn dilyn ymarfer Datgan Diddordeb a oedd yn agored i Farnwyr Rhanbarth a Barnwyr Cylchdaith a oedd yn gwasanaethu, penodwyd Ei Hanrhydedd y Barnwr Alison Raeside yn gynrychiolydd enwebedig newydd yr Arglwyddes Brif Ustus ar Fwrdd GLITEF. Mae'r Arglwyddes Brif Ustus yn diolch i'r Barnwr Rhanbarth Tim Jenkins am ei gyfraniad eithriadol i'r Bwrdd ac i weinyddu cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn ehangach.



**Mae cryfder a bywiogrwydd ein system cyfiawnder troseddol yn dibynnu ar ddenu a chadw unigolion sy'n annibynnol eu meddwl, sy'n dangos amrywiaeth o ran meddwl a chefnidir, ac sy'n deall bod yn rhaid i gyfiawnder fod ar gael i bawb.”**



## Mae gan y Coleg chwe amcan yn ei Strategaeth 2021-2025:

- Chwarae ei ran i sicrhau bod gan y farnwriaeth y sgiliau a'r wybodaeth iawn;
- Diwallu anghenion yr ynadaeth yn y dyfodol;
- Paratoi ar gyfer arloesi a newid;
- Arweinyddiaeth effeithiol;
- Cyfrannu at farnwriaeth dryloyw sy'n edrych tuag allan; a
- Chefnogaeth o ansawdd uchel ar gyfer hyfforddiant modern.

# Hyfforddiant

Mae gan yr Arglwyddes Brif Ustus gyfrifoldeb statudol dros gynnal trefniadau priodol ar gyfer hyfforddi barnwriaeth y llysoedd, sy'n cael ei gyflawni gan y Coleg Barnwrol.

Rhwng mis Hydref 2023 a mis Gorffennaf 2024, cynhaliodd y Coleg 408 o ddigwyddiadau hyfforddi barnwrol, gan ddarparu bron i 15,700 o lefydd i gynadleddwyr.<sup>13</sup> Roedd hyn yn cynnwys 104 o seminarau cynefino ar gyfer ychydig dros 2,370 o ddeiliaid swyddi barnwrol a oedd yn newydd i'r farnwriaeth neu'n cymryd rolau newydd, ynghyd â hyfforddiant rheolaidd arall, gan gynnwys seminarau awdurdodaethol a seminarau sy'n seiliedig ar sgiliau.

Ar ben hynny, roedd y Coleg wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu hyfforddiant i'r ynadaeth gan GLITEF

ym mis Chwefror 2024 ym mhob rhanbarth yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn gam sylweddol tuag at wella cysondeb a phroffil hyfforddiant ynadon a sicrhau bod hyfforddiant yn parhau i ddiwallu anghenion yr ynadaeth wrth iddi dyfu o ran maint ac amrywiaeth. Rhwng mis Hydref 2023 a mis Medi 2024, darparodd y Coleg ychydig dros 1,460 o ddigwyddiadau hyfforddi i tua 12,700 o ynadon. Cyflwynodd y Coleg lwyfan Dysgu'r Coleg Barnwrol i ynadon er mwyn iddynt gael mynediad at un system i archebu cyrsiau a chael gafael ar adnoddau hyfforddi ar-lein.

Erbyn diwedd Mawrth eleni, roedd y Coleg wedi darparu 163 o sesiynau hyfforddiant cynhwysiant i oddeutu 5,800 o farnwyr Llysoedd a Thribiwnlysoedd ac aelodau Tribiwnlysoedd, fel rhan o'u hyfforddiant parhad. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddeall, adnabod ac ymateb i ymddygiad gwaharddol a hyrwyddo diwylliant cadarnhaol,

<sup>13</sup> Mae'r holl ffigurau hyfforddi yn y paragraffau hyn a dilynol yn ffigurau pwrpasol a gynhyrchwyd ar gyfer yr adroddiad hwn ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a mis Medi 2024. Cyhoeddir ffigurau blynyddol manwl ar hyfforddiant yn [Archif Adroddiadau - Barnwyr y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd](#) y Coleg Barnwrol.



parchus a chynhwysol i bawb sy'n gweithio yn y farnwriaeth a gyda hi.

Comisiynodd y Coleg ymchwil i ddiwylliant, ymddygiad a chynhwysiant yn yr ynadaeth, gan adlewyrchu natur wirfoddol yr ynadaeth a statws unigryw'r rôl. Bydd yr ymchwil hon yn sail i hyfforddiant i gefnogi ynadon i feithrin diwylliant cynhwysol.

Bydd hefyd yn helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth ymysg ynadon a defnyddwyr y system gyfiawnder.

Gan adeiladu ar y rhaglen ddwys am flwyddyn o hyfforddiant byw ar niwed cam-drin domestig yn 2022/23, gwnaed darpariaeth hyfforddi bellach gyda 120 o lefydd yn ystod hanner cyntaf blwyddyn hyfforddi 2023/24 ar gyfer y barnwyr Teulu hynny nad oeddent wedi gallu mynychu'r hyfforddiant yn y prif gam cyflwyno. Ategwyd yr hyfforddiant hwn gan adnodd e-ddysgu i gefnogi barnwyr newydd a phresennol.

Cyhoeddodd y Coleg argraffiad newydd o Lyfr y Fainc ar Driniaeth Gyfartal ym mis Gorffennaf 2024, yn dilyn adolygiad tair blynedd cynhwysfawr.<sup>14</sup> Mae'r Llyfr hwn yn adnodd pwysig i farnwyr a'i nod yw gwella dealltwriaeth o wahanol amgylchiadau'r rhai sy'n dod gerbron y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Mae'r argraffiad newydd yn gyfredol, yn gryno ac yn hawdd ei ddefnyddio. Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd y Coleg ddiweddariad interim i Lyfr Mainc y Llys leuenctid, sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am ddiffynyddion ifanc ar gyfer barnwyr yn Llys y Goron. Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd y Coleg fersiwn wedi'i ddiweddaru o Gompendiwm Llys y Goron.

Parhaodd y Coleg â'i ymgysylltu rhyngwladol eleni, gan gynnwys drwy'r Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Hyfforddiant Barnwrol a rhyngweithio ag aelodau'r Gymanwlad. Mewn partneriaeth â Rhwydwaith Hyfforddiant Barnwrol Ewrop, cyflwynodd y Coleg seminar ym mis Mawrth 2024 yn yr Almaen ar gynllunio e-gwrs o baratoi i werthuso, fel rhan o seminar ehangach ar ddefnyddio technolegau newydd wrth gyflwyno hyfforddiant barnwrol. Roedd y Coleg yn bresennol yng nghyfarfod blynyddol Cyngor Astudiaethau Barnwrol y DU ac Iwerddon yn Belfast ym mis Tachwedd 2023, ac yn ystod y flwyddyn darparodd hyfforddiant ynghyd â Sefydliad Barnwrol yr Alban ar bynciau mentora a deallusrwydd artifisial.



<sup>14</sup> [Llyfr y Fainc ar Driniaeth Gyfartal \(Gorffennaf 2024\) \(judiciary.uk\)](https://www.judiciary.uk)

Darparodd y Coleg gyfres o adnoddau i gefnogi barnwyr wrth i raglen Ddiwygio GLITEF ddod i ben ac mae wedi'i gwreiddio mewn arferion bob dydd. Roedd hyn yn cynnwys llyfrgell gynhwysfawr o fodiwlau e-ddysgu rhyngweithiol a gweminarau ar systemau ac offer newydd fel gwrandawiadau fideo a rheoli achosion digidol. Darparodd y Coleg hyfforddiant hefyd i gefnogi barnwyr yn eu sgiliau digidol.

## Lles Barnwrol

Mae gan yr Arglwyddes Brif Ustus gyfrifoldeb statudol i gynnal trefniadau priodol ar gyfer lles barnwyr Cymru a Lloegr o fewn yr adnoddau a ddarperir gan yr Arglwydd Ganghellor.

Yn ogystal â phenodi prif farnwr dros les barnwrol yn 2023, mae dau farnwr sydd â chyfrifoldeb portffolio dirprwyedig dros les ar gyfer barnwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn y drefn honno. Mae'r ddau farnwr hyn yn darparu cefnogaeth hanfodol gan gymheiriaid i gydweithwyr a barnwyr arweiniol, gan ddarparu lle diogel a chyfrinachol ar gyfer sgysiau. Mae unrhyw themâu eang o sgysiau o'r fath yn helpu i wella ein cymorth lles i'r farnwriaeth. Defnyddir eitemau newyddion mewnol i hyrwyddo lansiad canllawiau a mentrau lles newydd. Yn ogystal, ceir grwpiau o farnwyr lles a benodir yn lleol sy'n cynnig cefnogaeth gan gymheiriaid i gydweithwyr yn yr awdurdodaeth neu'r siambr y maent yn gweithio ynddi.



Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles Barnwrol wedi bod ar waith ers 2021 a bydd yn cael ei hadolygu yn 2025. Mae'r Strategaeth yn cael cefnogaeth cynllun gweithredu lles a adolygir yn flynyddol.

Darparwyd canllawiau hefyd i gefnogi deiliaid swyddi barnwrol sydd wedi cael diagnosis o salwch terfynol.

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu eu hopsiynau cymorth lles a'u cyngor i arweinwyr barnwrol.

Yn ogystal â'r tudalennau pwrpasol ar y fewnrwyd farnwrol, dosbarthwyd posterï yn hyrwyddo gwasanaethau lles i'w harddangos mewn llysoedd a thribiwnlysoedd ledled Cymru a Lloegr.

### **Cynhaliwyd y gweithgaredd canlynol i gefnogi lles barnwrol rhwng Awst 2023 a Medi 2024:**

- **Canllawiau i gefnogi deiliaid swyddi barnwrol sydd â chyfrifoldebau gofalu:** cyhoeddwyd hwn yn fewnol ym mis Hydref yn ystod Wythnos Genedlaethol Bywyd a Gwaith. Mae'n cynnig cefnogaeth ymarferol, emosïynol a seicolegol i ddeiliaid swyddi barnwrol sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant a phobl hŷn. Roedd eitem newyddion fewnol, a ysgrifennwyd gan ddau farnwr Tribiwnlys ac a gyhoeddwyd yn ystod Wythnos Genedlaethol Gofalwyr 2024, yn rhoi cipolwg ar brofiad a heriau bod yn ddeiliad swydd farnwrol gyda chyfrifoldebau o'r fath.
- **Canllawiau i gefnogi deiliaid swyddi barnwrol sy'n mynd drwy brofedigaeth:** datblygwyd y canllawiau gyda chymorth arbenigwyr AD, barnwyr lles ac aelodau'r Pwyllgor AD Barnwrol. Mae'n amlinellu'r cymorth lles sydd ar gael. Cyhoeddwyd dogfen atodol ar gyfer arweinwyr barnwrol, 'Sut i gael sgysiau lles cefnogol' ar y cyd.



A close-up, over-the-shoulder shot of a man with a beard and glasses, wearing a light-colored shirt, looking intently at a camera mounted on a gimbal. The camera's flip-out screen is visible, showing a video feed. The background is softly blurred, suggesting an indoor setting with natural light. The overall mood is professional and focused.

# Ymgysylltu allanol a rhyngwladol

# Cyfathrebu Allanol

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynodd y Swyddfa Farnwrol raglen o weithgareddau cyfathrebu ar ran y farnwriaeth a oedd yn ceisio apelio at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd drwy nifer o lwyfannau ar-lein ac all-lein.

Roedd cynllun cyfathrebu yn cefnogi blwyddyn gyntaf yr Arglwyddes Brif Ustus yn ei swydd. Yn allanol, roedd hyn yn cynnwys ffrydio ei seremoni tyngu llw yn fyw a chynhyrchu neges fideo ar gyfer ei diwrnod cyntaf ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol.

Cynhaliwyd Cynhadledd flynyddol y Wasg ar gyfer yr Arglwyddes Brif Ustus ym mis Chwefror 2024. Yn ystod y Cynhadledd i'r Wasg, gwahoddodd ac atebodd gwestiynau gan y cyfryngau cenedlaethol ac arbenigol.

Lansiwyd cyfres newydd o fideos 'diwrnod ym mywyd' ym mis Mai 2024, lle rhannodd saith o ddeiliaid swyddi barnwrol ledled Lloegr enghraifft o ddiwrnod yn eu bywyd gwaith. Erbyn 31 Awst 2024, roedd y rhain wedi cael eu gwyllo dros 8,000 o weithiau ar YouTube.

Mae'r tîm cyfathrebu wedi parhau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynyddu dealltwriaeth o'r farnwriaeth ac i arddangos mentrau allgymorth ac amrywiaeth. Mae'r rhain wedi creu bron i 120,000 o ddilynwyr a thanysgrifwyr ar draws pum sianel: Facebook, Instagram, LinkedIn, X (a elwid gynt yn Twitter) ac YouTube UK Judiciary.

Gan weithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, cefnogodd y tîm cyfathrebu ymgyrch i recriwtio mwy o ynadon i fainc Cymru a Lloegr. Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, penodwyd dros 2,000 o ynadon newydd – y nifer mwyaf erioed a benodwyd mewn cyfnod o 12 mis.

Bu'r tîm hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Dedfrydu i gefnogi eu menter '**Barnwch Chi**', a lansiodd ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r wefan ryngweithiol, sydd wedi'i hanelu at ddisgyblion ysgol uwchradd a'r cyhoedd yn gyffredinol, yn gweithio i wella dealltwriaeth o sut mae barnwyr ac ynadon yn penderfynu ar ddedfrydau gan ddefnyddio canllawiau dedfrydu. Erbyn 31 Awst 2024, mae'r negeseuon cymdeithasol am 'Barnwch Chi' wedi creu 1,700 o gliciau a 500 o bobl yn eu hoffi.

## Y Proffesiwn Cyfreithiol

Mae perthynas y farnwriaeth â'r Bar, Cymdeithas y Cyfreithwyr, a Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol yn parhau'n gryf. Mae'r Arglwyddes Brif Ustus wedi cyfarfod yn rheolaidd ag uwch gynrychiolwyr o bob cangen o'r proffesiwn dros y 12 mis diwethaf.

Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd yr Arglwyddes Brif Ustus, Meistr y Rholiau a Phenaethiaid Is-adrannau ddatganiad ar y cyd yn annog mwy o gwnsleriaid iau i gymryd rhan mewn gwrandawiadau llysoedd a thribiwnlysoedd. Y gobaith yw y bydd hyn yn cefnogi datblygiad parhaus eiriolwyr iau ac yn rhoi mwy o gyfleoedd



i ferched iau, yn enwedig i hyrwyddo dadleuon llafar mewn llysoedd a thribiwnlysoedd.

Ym mis Mehefin 2024, rhoddodd yr Arglwyddes Brif Ustus y prif anerchiad yng Nghynhadledd Flynyddol y Bar a'r Bar Ifanc, gan ddilyn gyda sesiwn holi ac ateb. Ei thema oedd y farnwriaeth a'r proffesiwn cyfreithiol yn cydweithio.

Mae'r Arglwyddes Brif Ustus hefyd wedi gweld bod cyfarfodydd rheolaidd gyda Phenaethiaid Gweithrediadau Cyfreithiol (uwch-gyfreithwyr sy'n gweithio o fewn GLITEF) yn ddefnyddiol o ran rhannu gwybodaeth am weithrediad effeithlon ac effeithiol y llysoedd. Ym mis Ebrill 2024, bu'n annerch cynhadledd flynyddol cynghorwyr cyfreithiol y Llys Ynadon a swyddogion cyfreithiol y Tribiwnlys (cyfreithwyr cyflogedig GLITEF).





**Mae gwasg gadarn ac annibynnol yn rhan hanfodol o wead democratiaeth iach. Yn yr un modd, mae barnwriaeth gadarn ac annibynnol yn rhan hanfodol o'r gwaith hwnnw. Er y gallwn chwarae ein rhannau mewn ffyrdd gwahanol, mae'r ddau ohonom yn gwneud hynny i sicrhau rheolaeth y gyfraith."**

## **Ymgysylltu ag ysgolion**

Mae'r gweithgareddau 12 mis diweddaraf a dderbyniwyd gan farnwyr ac ynadon Cysylltiadau Cymunedol ac Amrywiaeth yn dangos bod dros 550 o ysgolion, prifysgolion neu golegau wedi cael ymweliad wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae ymweliadau gan farnwyr ac ynadon yn chwarae rhan bwysig o ran gwella dealltwriaeth o'r system gyfiawnder ac annog barnwyr a chyfreithwyr y dyfodol. Fel rhan o'r rhaglen allgymorth i ysgolion, ymwelodd yr Arglwyddes Brif Ustus ag Ysgol Mercia

yn Sheffield ym mis Mehefin 2024, ac Ysgol King's Academy Prospect yn Reading ym mis Gorffennaf 2024.

## **Tryloywder a chyfiawnder agored**

Rhan o'r rôl gyfansoddiadol farnwrol yw gwarchod a hyrwyddo cyfiawnder agored fel elfen hanfodol o reolaeth y gyfraith. Un o egwyddorion craidd gweinyddu cyfiawnder yw'r cysyniad bod yn rhaid i gyfiawnder gael ei weld yn cael ei wneud. Mae gan y cyhoedd hawl i wybod beth sy'n digwydd yn eu llysoedd a'u tribiwnlysoedd a dylent fod yn hyderus bod prosesau'n seiliedig ar egwyddorion tryloywder a chyfiawnder agored.

Mae'r Arglwyddes Brif Ustus wedi creu Bwrdd Tryloywder a Chyfiawnder Agored newydd. Dan gadeiryddiaeth Mr Ustus Nicklin, nod y bwrdd yw archwilio a moderneiddio'r dull o ymdrin â thryloywder a chyfiawnder agored ar draws llysoedd a thribiwnlysoedd Cymru a Lloegr.

Mae aelodau'r Bwrdd ac amlinelliad o'i waith wedi'u nodi yn y cylch gorchwyl a gyhoeddwyd<sup>15</sup>. Mae'r bwrdd wedi cwrdd yn rheolaidd ers ei sefydlu yn gynnar yn 2024 ac mae eisoes wedi dechrau ymgysylltu'n eang i osod amcanion allweddol i arwain ei waith. Cynhaliwyd ei fforwm pwyllgor rhanddeiliaid cyntaf ddiwedd mis Gorffennaf, gyda nifer o gyfryngau, academyddion a'r rheini sydd â diddordeb mewn cyfiawnder agored yn bresennol.

<sup>15</sup> <https://www.judiciary.uk/transparency-and-open-justice-board/>



Bydd y Bwrdd yn cefnogi ac yn cydlynu rhaglen o newidiadau i hyrwyddo tryloywder a chyfiawnder agored mewn partneriaeth â GLITEF a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Wrth wneud hynny, bydd yn nodi (ac os oes angen, yn sefydlu) is-bwyllgorau priodol ym mhob un o awdurdodaethau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr.

## Gweithio gyda'r Llywodraeth

Yn unol â chyfrifoldebau statudol yr Arglwyddes Brif Ustus, ac yn unol â ffiniau cyfansoddiadol, ei dyletswydd hi yw ymgysylltu'n rheolaidd â'r Llywodraeth fel sy'n briodol ac yn angenrheidiol. Ar ôl tyngu llw ym mis Hydref 2023, bu'r Arglwyddes Brif Ustus yn ymgysylltu'n aml ag Alex Chalk CB AS, cyn Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, tan fis Gorffennaf 2024, pan oruchwyliodd Shabana Mahmood AS yn tyngu llw fel deiliad newydd y swydd. Yr achlysur hwn oedd y tro cyntaf mewn hanes i Arglwyddes Brif Ustus weinyddu llw Arglwydd Ganghellor benywaidd a deiliad Mwslimaidd cyntaf y rôl. Mae hi

wedi cwrdd â'r Arglwydd Ganghellor droeon yn ogystal â'r Ysgrifennydd Parhaol ac uwch swyddogion eraill yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bu i'r Arglwyddes Brif Ustus hefyd weinyddu'r llw ar gyfer dau Swyddog Cyfraith newydd: Yr Arglwydd Hermer CB a Sarah Sackman CB AS fel y Twrnai Cyffredinol a'r Cyfreithiwr Cyffredinol.

Ers iddi ddod yn Arglwyddes Brif Ustus, mae wedi cael cyfarfodydd gyda dau Brif Weinidog: Rishi Sunak AS a Syr Keir Starmer CB AS. Cyfarfu'r Arglwyddes Brif Ustus â'r Prif Weinidog Rishi Sunak ar 13 Chwefror 2024 a'r Prif Weinidog, Syr Keir Starmer, ar 30 Awst 2024.

Ar bob achlysur, buont yn trafod ystod eang o bynciau o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall a chyflwynodd yr Arglwyddes Brif Ustus sylwadau ar ran y farnwriaeth. Mae aelodau eraill o'r uwch farnwriaeth hefyd yn cael cyfarfodydd dwyochrog gyda Gweinidogion perthnasol i sicrhau bod barn y farnwriaeth yn ei chyfanrwydd yn cael ei chyfleu i'r Llywodraeth.

Mae pynciau trafod rheolaidd gyda'r ddau Arglwydd Ganghellor wedi cynnwys materion sy'n effeithio ar

y farnwriaeth gan gynnwys cyllid, effeithlonrwydd, moderneiddio, capasiti carchardai, rheolaeth y gyfraith ac annibyniaeth farnwrol, a recriwtio barnwrol.

Mae'r Arglwyddes Brif Ustus hefyd wedi cwrdd â Llefarydd Tŷ'r Cyffredin (ym mis Chwefror a mis Hydref 2024) a'r Arglwydd Lefarydd (ym mis Chwefror 2024). Ym mhob cyfarfod, maent wedi trafod gwahanu pwerau, rheolaeth y gyfraith, ac annibyniaeth farnwrol. Cyfarfu'r Arglwyddes Brif Ustus â Daniel Greenberg, y Comisiynydd Seneddol dros Safonau, i barhau â thrafodaeth ar sut i liniaru achosion amhriodol o Aelodau Seneddol yn ysgrifennu at lysoedd a thribiwnlysoedd, ar ran eu hetholwyr, i geisio gwybodaeth amhriodol am gynnydd achosion penodol.

Mae'r Arglwyddes Brif Ustus hefyd wedi cwrdd ag uwch swyddogion a Gweinidogion o wahanol adrannau'r llywodraeth gan gynnwys y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu ac Arweinydd y Tŷ. Cyfarfu hefyd ag Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Chwefror a mis Mehefin 2024.

Rhoddodd yr Arglwyddes Brif Ustus dystiolaeth i Bwyllgor Dethol ar Gyfiawnder Tŷ'r Cyffredin ym mis Ionawr 2024 a bydd yn ailymddangos gerbron y Pwyllgor hwn ym mis Tachwedd 2024 a Phwyllgor y Cyfansoddiad ym mis Rhagfyr 2024.

Yn unol ag uchelgais yr Arglwyddes Brif Ustus i feithrin dealltwriaeth o'r Farnwriaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ymysg seneddwyr, cynyddodd nifer y Barnwyr Cyswllt Seneddol ym mis Mehefin 2024. Cynhaliodd y grŵp dderbyniad ar gyfer staff pwyllgorau

seneddol yn y Llysoedd Barn Brenhinol ym mis Rhagfyr 2023. Mae'r Arglwyddes Brif Ustus hefyd wedi datblygu a hyrwyddo rhaglen ymweliadau â llysoedd a thribiwnlysoedd gyda'r grŵp hwn, lle bydd barnwyr ac aelodau tribiwnlysoedd yn gwahodd eu AS lleol i ymweld â llysoedd a chanolfannau tribiwnlys eu hetholaeth. Nod y cynllun hwn yw helpu ASau i ddeall yn well beth sy'n digwydd o ddydd i ddydd mewn lleoliad o'r fath yn eu hetholaeth.



**Rwy'n credu yn gyntaf, ac yn flaenllaw, fy mod i yma i gydnabod a hyrwyddo cryfderau a manteision ein system farnwrol ac mae hynny'n cynnwys cyfathrebu'n effeithiol yr hyn rwy'n ei weld yw rôl hanfodol y farnwriaeth o ran cefnogi democratiaeth, cymdeithas a'r economi. Oherwydd bod system gyfiawnder sy'n gweithio'n dda yn hanfodol i dwf economaidd ac iechyd cymdeithas yn gyffredinol."**



# Rhyngwladol

Bu'r farnwriaeth yn ymgysylltu â nifer o sefydliadau a phartneriaid rhyngwladol drwy gydol y cyfnod adrodd a chroesawodd nifer o Brif Ynadon a nifer o ymweliadau barnwrol uwch â'r awdurdodaeth hon, fel rhan o Agoriad y Flwyddyn Gyfreithiol ym mis Hydref 2023 ac yn ystod y flwyddyn gyfreithiol. Parhaodd y farnwriaeth i ddarparu hyfforddiant a meithrin gallu dramor, gan weithio gydag awdurdodaethau eraill i hyrwyddo rheolaeth y gyfraith.

Yn y Gymanwlad, parhaodd yr ymgysylltu â nifer o awdurdodaethau, gan adeiladu ar ymweliadau blaenorol i rannu arferion gorau ac arbenigedd. Roedd India yn parhau i fod yn ffocws pwysig gyda Meistr y Rholiau yn arwain dirprwyaeth i Delhi ar gyfer y Fforwm Cyfreithiol Indo-Brydeinig ym mis Mawrth 2024. Parhaodd hyfforddiant ynadon yn Nigeria gyda chymysgedd o weminarau ar-lein a sesiynau wyneb yn wyneb, a gweithio gyda Jamaica ar hyfforddiant penodol ac ehangu

datblygiad eu cwricwlwm barnwrol dros y flwyddyn.

Mae ymgysylltu yn Ewrop wedi parhau drwy fod yn aelod o nifer o sefydliadau fel Rhwydwaith Cynghorau Ewropeaidd y Farnwriaeth, Cymdeithas Barnwyr Ewrop, a Sefydliad Cyfraith Ewrop ymysg eraill. Drwy Rwydwaith Hyfforddiant Barnwrol Ewrop, mae'r beirniaid wedi bod yn mynychu seminarau sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau yn ogystal â rhaglenni cyfnewid ledled Ewrop. Cynhaliwyd Colloque Cydweithredu Barnwrol Ffrengig Prydeinig Gwyddelig dwyflynyddol yng Nghaeredin ym mis Mehefin 2024. Mae cydweithrediad dwyochrog ag Albania drwy bartneriaeth cyfnewid barnwrol a rhaglen hyfforddi wedi'i ddatblygu ac mae ymweliadau astudio sy'n canolbwyntio ar estraddodi wedi'u cynnal ym Mharis a Rhufain.

Ym maes Cyfraith Teulu Ryngwladol, mae barnwyr wedi parhau i gryfhau'r berthynas ag awdurdodaethau eraill a phartneriaid rhyngwladol (gan gynnwys aelodau o Rwydwaith Rhyngwladol yr Hag o Farnwyr) drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r rhain wedi cynnwys mynychu'r Comisiwn Arbennig yn yr Hag ar Weithrediad Ymarferol Confensiwn Herwydio Plant 1980 a Chonfensiwn Amddiffyn Plant 1996, a chymryd rhan (o bell ac wyneb yn wyneb) mewn cynadleddau a chyfarfodydd barnwrol ac eraill, yn ogystal â chynnal ymweliadau â barnwyr tramor. Mae'r ymgysylltu hwn wedi cyfrannu at y nod cyffredinol o ddatblygu dulliau cyffredin mewn cyfraith teulu, hyrwyddo gweithrediad effeithiol a chyson offerynnau rhyngwladol a chynorthwyo i ddatrys achosion unigol yn gyflym.



Parhaodd y farnwriaeth i gefnogi Fforwm Rhyngwladol Sefydlog y Llysoedd Masnach. Cynhaliodd y Fforwm ei bumed cyfarfod yn Doha ym mis Ebrill 2024 gyda 50 awdurdodaeth yn bresennol yn bersonol. Roedd y pynciau'n cwmpasu ystod eang o feysydd gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial mewn datrys anghydfodau ac anghydfodau sy'n ymwneud â deallusrwydd artiffisial, cydweithrediad barnwrol rhwng awdurdodaethau, a chyllid ymgyfreitha masnachol. Mae trafodaethau bwrdd crwn ar-lein hefyd wedi cael eu hwyluso ar y pwnc "Llysoedd Masnach a Newid Hinsawdd: Cwestiynau ynghylch Cyfrifoldeb Cyfreithiol Corfforaethol". Cafodd hyn ei gynnal ar y cyd â'r Banc Datblygu Asiaidd. Cynhaliwyd trafodaeth bwrdd crwn ar-lein arall yn gynharach eleni ynghylch Rheoli Achosion a'r berthynas rhwng Cyfryngu a'r Llysoedd mewn materion Masnachol yn Affrica.

Mae'r Arglwyddes Brif Ustus hefyd wedi bod yn gefnogol i I-JUMP, sef y Rhaglen Mentora Rhwng Cyfoedion Barnwrol Rhyngwladol, sy'n rhaglen unigryw. Yng nghynllun peilot 2023, cafodd 23 o farnwyr o bum awdurdodaeth eu cysylltu â mentoriaid. Eleni, ehangwyd y rhaglen i gynnwys 15 awdurdodaeth y mae gennym gysylltiadau gwaith parhaus â hwy. Er mai'r targed oedd cysylltu 50 o farnwyr domestig a rhyngwladol, mae hyn wedi cael ei ragori gan 14 pâr (sy'n golygu bod cyfanswm o 64 o barau a 128 o farnwyr yn cymryd rhan erbyn hyn). Dim ond oherwydd y diddordeb a'r gefnogaeth aruthrol a gawsom i'n hymdrechion gan brif farnwyr pob awdurdodaeth yr oedd hyn yn bosibl.



**Mae'n wir dweud bod yn rhaid i farnwyr fod ag ysgwyddau eang – rhaid iddynt fabwysiadu agwedd gadarn tuag at faterion o'r fath a pheidio â gadael i ymgyrchoedd, y cyfryngau na'u safbwyntiau personol eu hunain ddylanwadu arnynt. Ond nid yw barnwyr yn magu'r dewrder moesol sy'n angenrheidiol wrth eu penodi. Nid oes unrhyw gyfrinach yn y llw barnwrol yn hynny o beth. Yn hytrach, mae dewrder moesol yn rhywbeth y mae barnwyr ac ynadon yn ei ddatblygu yn eu gyrfaedd cyn eu penodi. Lle mae rhywun yn edrych ar ddewrder moesol y farnwriaeth, maent yn edrych ar ddewrder moesol yr eiriolwyr yr oeddent yn arfer bod.”**

# Cymru

Mae Cymru'n cyrraedd ac yn rhagori ar y targedau perfformiad ar draws awdurdodaethau Sifil, Teulu ac Ynadon.

Fel y nodwyd uchod, cafodd y cynllun Braenaru ei ymestyn yn llwyddiannus i Dde-ddwyrain Cymru ym mis Ebrill 2024. Fel yn y lleoliadau eraill lle mae hyn wedi cael ei gyflwyno, mae'r canlyniadau'n dangos gwelliant sylweddol.

Mae Cymru'n llwyr weinyddu'r Gronfa Genedlaethol, Rhanbarthol a Rhithwir yn yr awdurdodaeth Sifil i ganiatáu gwrandawriadau cyflymach ar gyfer hawliadau bychain a hawliadau trac cyflym. Cefnogir y defnydd o'r gronfa drwy lenwi swyddi Barnwr Rhanbarth sy'n derbyn ffi ar gyfer De-ddwyrain Lloegr a Llundain.

Mae Esblygiad Fideo Sain Digidol (DAVE) yn gwella technoleg yn Llysoedd Cymru. Llys y Goron yr Wyddgrug oedd y cyntaf yng Nghymru i dderbyn hwn ar 31 Gorffennaf 2023, ac yna Llys y Goron Caerdydd ym mis Mawrth 2024. Mae offer clyweledol sydd wedi gwella'n sylweddol yn galluogi gwell cyfranogiad o bell lle bo hynny'n addas ar gyfer diffynyddion a thystion.

Mae mwy o gydraddoldeb a chydlyniant o hyd rhwng pawb sy'n dal swyddi barnwrol ledled Cymru. Mae ynadon lleyg bellach wedi'u hyfforddi yng Nghymru gan y Coleg Barnwrol, ac mae cyfarfodydd rheolaidd wedi'u sefydlu rhwng barnwyr arweiniol y Tribiwnlys a'r Barnwyr Llywyddol a'r Barnwr Llywyddol Teuluol i ganfod a rhoi sylw i feysydd o ddiddordeb cyffredin.



Cynhaliodd y Coleg Barnwrol seminar Cymraeg ym mis Mawrth 2024 ar gyfer tua 50 o gynrychiolwyr, gyda'r nod o wella profiad y farnwriaeth o ddefnyddio'r Gymraeg a rhyngweithio â holl ddefnyddwyr y llys drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, cwblhaodd y Coleg hyfforddiant mewn ymateb i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, fel rhan o'i ymrwymiad ehangach i gefnogi hyfforddiant mewn materion datganoledig.

Rhyddhawyd fersiwn Gymraeg o MyHMCTS eleni, gan alluogi defnyddwyr proffesiynol y llys i gyflwyno a rheoli achosion Tribiwnlysoedd, Sifil a Theulu yn Gymraeg ac mae hyn bellach wedi'i ymestyn ar gyfer ymgyfreithwyr sy'n gwneud hawliadau am arian sifil.

Ymwelodd yr Arglwyddes Brif Ustus â Chaerdydd ym mis Hydref 2023 ar gyfer Cynhadledd flynyddol Cymru'r



Gyfraith, cyfarfod Cymdeithas y Barnwyr yng Nghymru, a'r gwasanaeth sy'n nodi agoriad y flwyddyn gyfreithiol yng Nghymru. Roedd y gynhadledd yn llwyfan ar gyfer deialog barhaus ar ddatblygiadau cyfansoddiadol a chyfreithiol yng Nghymru, gan gynnwys y bwriad i ddiwygio Tribiwnlysoedd Cymru.

Dychwelodd yr Arglwyddes Brif Ustus i Gymru ym mis Mawrth 2024 i eistedd yn y Llys Apêl. Yn ystod yr eisteddiad hwn, fe wnaeth weinyddu'r llw i farnwr cylchdaith newydd sydd bellach yn Farnwr Teulu Dynodedig ar gyfer Deddwyrain Cymru. Dyma'r tro cyntaf ers rhai blynyddoedd y gweinyddwyd llw ar y lefel hon yng Nghymru (ac yn rhannol yn Gymraeg) yn hytrach nag yn Llundain.

Eisteddodd y Llys Apêl yng Nghymru bedair gwaith, yn yr adrannau Sifil a Throseddol, yng Nghaerdydd ac yn Abertawe.

Ar ben hynny, ym mis Mawrth, ymwelodd yr Arglwyddes Brif Ustus â llysoedd a thribiwnlysoedd ledled Abertawe a Chasnewydd, gan gwrdd ag ynadon a barnwyr Tribiwnlys IAC, ymysg eraill.

Fe wnaeth aelodau Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru a'r farnwriaeth gyfarfod pan fu i Farnwr Llywyddol Cymru weinyddu llw Aelodau'r Senedd fel y Prif Weinidog newydd a Gweinidogion yn ystod y flwyddyn.



**Mae'n fater o egwyddor sylfaenol bod unigolion, boed hwy'n ymgyfreithwyr, yn dystion, neu'n aelodau o'r cyhoedd heb unrhyw fudd uniongyrchol mewn anghydfod penodol, yn gallu deall yn hawdd beth sy'n digwydd yn ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd. I ymgyfreithwyr, mae'n fater sylfaenol o fynediad. Mae'r gallu i ddeall achosion, yr union hawliad sy'n cael ei wneud neu natur yr amddiffyniad sy'n cael ei hyrwyddo, a'r dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio ar bob ochr, yn ofynnol yn ôl egwyddorion rhybudd priodol, cyfranogiad effeithiol a chyfle cyfartal."**



# Gweithgarwch arall





# Gweithgarwch barnwrol

## Crwneriaid

Mae awdurdodaeth y Prif Grwner yn cwmpasu Cymru a Lloegr ac mae'n cynnwys ystod o bwerau a dyletswyddau ffurfiol, gan gynnwys pwerau rheoli achosion helaeth, goruchwyllo penodiadau crwneriaid ac adrodd i'r Arglwydd Ganghellor ar system y crwneriaid drwy adroddiad blynyddol. Mae'r Prif Grwner yn darparu arweinyddiaeth farnwrol genedlaethol i Grwneriaid sy'n cynnwys darparu arweiniad a hyfforddiant.

Cyhoeddodd y cyn Brif Grwner adroddiad eithriadol ar 11 Ionawr 2024<sup>16</sup> yn dilyn 10 mlynedd o ddiwygiadau'r Crwner a gyflwynwyd gan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (y Ddeddf a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2013). Mae'r adroddiad yn cynnig myfyrdodau sy'n amlinellu effeithiau cadarnhaol fel harmoneiddio Crwneriaid â barnwyr mewn awdurdodaethau eraill. Ymddeolodd Ei Anrhydedd y Barnwr Thomas Teague CB fel Prif Grwner ym mis Mai 2024. Dymuna'r Arglwyddes Brif Ustus ddiolch iddo am ei wasanaeth ymroddedig yn y swydd honno ers 24 Rhagfyr 2000.

Penodwyd Ei Hanrhydedd y Barnwr Alexia Durran yn Brif Grwner ar 25 Mai 2024 am gyfnod o dair blynedd<sup>17</sup>. Ar ôl cynnwys Crwneriaid ar y Protocol Diogelwch Barnwrol ac ehangu

<sup>16</sup> [Report of the Chief Coroner - The coroner service 10 years post-reform \(judiciary.uk\)](#)

<sup>17</sup> [Appointment of new Chief Coroner - Courts and Tribunals Judiciary](#)



mynediad Crwneriaid at adnoddau barnwrol ar-lein presennol, bydd yn parhau i geisio gwella cysondeb rhwng Crwneriaid ac awdurdodaethau barnwrol eraill.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, lansiwyd yr Arolwg o Agweddau Barnwrol ac, am y tro cyntaf, roedd yn cynnwys Crwneriaid. Mae gwaith gyda'r llywodraeth hefyd wedi parhau, ac mae'r Prif Grwner bellach wedi cyhoeddi canllawiau ar weithredu'r System Arholwyr Meddygol statudol, sy'n rhan o'r Diwygiadau Ardystio Marwolaethau ehangach a ddaeth i rym ar 9 Medi 2024.

### **Llysoedd Dinas Llundain Newydd yn Salisbury Square**

Fe wnaeth yr Arglwyddes Brif Ustus a'r Fonesig Victoria Sharp, Llywydd Adran Mainc y Brenin, ddirprwyo rôl arweinydd barnwrol prosiect newydd Llysoedd Dinas Llundain i Mrs Ustus Yip, Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol. Bwriedir agor yn 2026, a bydd datblygiad Salisbury Square yn cynnwys 10 ystafell llys ychwanegol yn y Ddinas. Ymwelodd yr Arglwyddes Brif Ustus â'r safle ym mis Mehefin i gwrdd â swyddogion y Ddinas ac eraill a oedd yn ymwneud â'r prosiect ar gyfer seremoni i nodi cyrraedd pwynt isaf y safle. Mae'r Arglwyddes Brif Ustus a Llywydd Adran Mainc y Brenin yn cwrdd â Yip J yn rheolaidd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiad pwysig hwn ac maent yn ymddiddori'n fawr yn ei gynnydd. Mae'r prosiect cydweithredol hwn rhwng y farnwriaeth, GLITEF a Dinas Llundain yn fuddsoddiad sylweddol gan y Ddinas i'n hystâd llys a bydd yn cynnig cyfleuster o'r radd flaenaf, sydd gyda'r gorau yn y byd ar gyfer gweinyddu cyfiawnder.

# **Gweithgarwch ategol**

## **Panel Diogelu Data Barnwrol**

Mae'r cynnydd wedi parhau o ran codi ymwybyddiaeth yn y farnwriaeth o ofynion diogelu data a gwreiddio cydymffurfiaeth. Mae'r gwaith hwn yn dal i gael ei oruchwylio gan y Panel Diogelu Data Barnwrol. Ei rôl yw goruchwylio'r gwaith o brosesu data personol gan unigolion, llysoedd a thribiwnlysoedd wrth weithredu fel barnwyr.

Mae'r Panel yn adolygu pob digwyddiad data barnwrol i nodi themâu a llywio cyngor ac arweiniad. Ychydig iawn o achosion o dorri rheolau data dros y flwyddyn ddiwethaf a gafwyd, a dim un wedi arwain at ganlyniadau difrifol.

Mae'r Panel hefyd yn ystyried cwynion gan unigolion ynghylch sut mae eu data personol wedi cael ei brosesu gan lys, tribiwnlys neu unigolyn wrth weithredu mewn swydd farnwrol.

## **Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Barnwrol**

Rhwng mis Awst 2023 a mis Medi 2024, cyflwynodd y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Barnwrol bron i 32,000 o gyhoeddiadau print i farnwyr yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Mae'r amrywiaeth o adnoddau ar-lein a ddarperir i farnwyr wedi parhau i ehangu; mae gan farnwyr bellach fynediad at ystod gynhwysfawr, heb ei hail o adnoddau cyfreithiol ar-lein drwy eLIS, y llyfrgell gyfreithiol ar-lein ar gyfer barnwyr.

Mae'r defnydd o gronfeydd data ar-lein yn parhau i gynyddu, ac mae rhaglen hyfforddi eLIS wedi ehangu yn unol â hynny gan ei bod yn hanfodol bod gan farnwyr y sgiliau i fanteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd ar gael iddynt.

Ym mis Ebrill 2024, cafwyd cydweithio 18 mis gyda chydweithwyr masnachol i ail-dendro contractau ar gyfer prynu cyhoeddiadau ar-lein, print ac eLyfr. Y nod oedd darparu'r ystod ehangaf posibl o gyhoeddiadau i ddeiliaid swyddi barnwrol am y gwerth gorau posibl. Ar ôl negodi anarferol o heriol â'r cyflenwyr, daeth y contractau newydd i rym ym mis Ebrill 2024 ac maent wedi darparu adnoddau ar-lein newydd pwysig sydd wedi cael derbyniad da gan y farnwriaeth.

Parhaodd jLIS i gefnogi'r elusen International Law Book Facility, sy'n anfon llyfrau cyfreithiol diangen i sefydliadau nid-er-elw ledled y byd. Anfonwyd dros 850 o roddion i Kenya, Nauru, Nigeria, Papua Guinea Newydd, Ynysoedd Turks a Caicos, a Zimbabwe.

Roedd Ebrill 2024 yn nodi ail ben-blwydd y Gwasanaeth Find Case Law newydd, sy'n cael ei gynnal gan yr Archifau Gwladol. Ers hynny, mae dros 10,000 o ddyfarniadau o'r Llys Apêl, yr Uchel Lys, y Llys Gweinyddol, y Llys Teulu, y Llys Gwarchod, yr Uwch Dribiwnlys, a'r Siambr Reoleiddio Gyffredinol haen gyntaf wedi cael eu cyhoeddi.


Mae cwmpas y gwasanaeth bellach wedi'i ehangu i gynnwys detholiad cyfyngedig o ddyfarniadau allweddol o Lysoedd y Goron a'r Llysoedd Sirol lle maent yn cynnwys pwyntiau cyfreithiol

newydd, yn sefydlu cynsail cyfreithiol, neu o ddiddordeb digonol i gael eu gwneud yn gyhoeddus.

Mae hen benderfyniadau'r tribiwnlys hefyd yn cael eu trosglwyddo i Find Case Law o hen systemau TG y Weinyddiaeth Gyfiawnder.









# Geirfa

**Cylchdeithiau:** mae llysoedd Cymru a Lloegr wedi'u rhannu'n chwe rhanbarth daearyddol, a elwir yn 'gylchdeithiau'. Y rhanbarthau hyn yw Canolbarth Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd Lloegr, De-ddwyrain Lloegr, Cymru a Gorllewin Lloegr.

**Llys Sirol:** mae'n delio â materion sifil (nad ydynt yn rhai troseddol) y mae achosion yn codi pan fydd unigolyn neu fusnes yn credu bod eu hawliau wedi cael eu torri.

**Y Llys Apêl:** y llys uchaf o fewn Uwch Lysoedd Cymru a Lloegr, dim ond gydag apeliadau o lysoedd neu dribiwnlysoedd eraill y mae'n delio â nhw. Fe'i rhennir yn ddwy Adran, Troseddol a Sifil.

**Llys y Goron:** mae'n delio â'r achosion troseddol mwyaf difrifol. Mae'n eistedd mewn dros 70 o ganolfannau llys ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys y Llys Troseddol Canolog, a elwir yn fwyaf cyffredin yn Old Bailey.

**Uchel Lys:** yn delio yn y lle cyntaf â phob achos cyfraith sifil (nad ydynt yn rhai troseddol) uchel ei werth a phwysig, ac mae ganddo hefyd awdurdodaeth oruchwyliol dros bob is-lys ac is-dribiwnlys, gydag ychydig o eithriadau statudol. Mae'r Uchel Lys yn cynnwys tair adran: Adran Mainc y Brenin, yr Adran Deulu a'r Adran Siawnsri.

**Ymglyfreithiwr drosto'i hun (LiP):** unigolyn, cwmni neu sefydliad sy'n gorfod mynd i'r llys heb gynrychiolaeth gyfreithiol gan gyfreithiwr neu fargyfreithiwr.

**Ynadon:** aelodau hyfforddedig, gwirfoddol o'r gymuned leol sy'n gwneud penderfyniadau mewn achosion troseddol a theulu mewn llysoedd ynadon a'r Llys Teulu. Gwrandewir yr achosion mwyaf cymhleth mewn llysoedd ynadon gan Farnwyr Rhanbarth proffesiynol.

**Llysoedd ynadon:** maent yn delio ag oddeutu 95% o achosion troseddol ac mae bron pob achos llys troseddol yn dechrau ynddynt. Gwrandewir troseddau mwy difrifol yn Llys y Goron, naill ai ar gyfer dedfrydu ar ôl i'r diffynnydd gael ei ddyfarnu'n euog mewn llys ynadon, neu ar gyfer treial gyda barnwr a rheithgor.

**Cyfraith breifat:** y meysydd cyfreithiol sy'n ymwneud â'r cysylltiadau hynny rhwng unigolion nad yw'r wladwriaeth yn ymwneud yn uniongyrchol â nhw, e.e. y berthynas rhwng gŵr a gwraig neu riant a phlentyn, ac anghydfodau sy'n codi o eiddo, contract, cyfreithiau camweddu, ymddiriedolaethau, cymynroddion, ac ati.

**Cyfraith gyhoeddus:** y rhan o'r gyfraith sy'n ymwneud â rôl y wladwriaeth. Mae'n rheoli ymddygiad cyrff cyhoeddus (gan gynnwys llywodraeth ganolog a llywodraeth leol) ac yn rheoleiddio'r berthynas rhwng unigolion a changhennau amrywiol y wladwriaeth.

**Barnwr Llywyddol:** Barnwyr Uchel Lys sy'n gyfrifol am leoli barnwyr a dyrannu achosion ar eu Cylchdaith. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb dros oruchwylio barnwyr yn gyffredinol ar eu cylchdeithiau.

**Barnwyr preswyl:** uwch farnwyr cylchdaith sy'n goruchwylio'r gwaith o weinyddu a rheoli llys neu lysoedd unigol.

ISBN 978-1-5286-5260-5

E03231647